# CBAC Sylfaen Lefel Mynediad/Lefel 1 Amgylchedd Adeiledig

## Manyleb Ddrafft

I'w haddysgu o fis Medi 2027
Dyfarniad Cyntaf 2029

Manyleb DRAFFT yw hon. Felly, dylai canolfannau ddisgwyl rhai newidiadau yn y fersiwn derfynol a gyhoeddir ym mis Medi 2026.

DRAFFT

# Gwybodaeth am y Cymhwyster

| | |
|---|---|
| Teitl y cymhwyster | CBAC Lefel Mynediad/Lefel 1 Sylfaen Amgylchedd Adeiledig |
| Amcan y cymhwyster | Cyflwyno dysgwyr i sectorau galwedigaethol trwy brofiadau dysgu hygyrch, ymarferol sy'n datblygu sgiliau sylfaenol, cefnogi datblygiad personol, ac yn galluogi symud ymlaen i addysg a hyfforddiant pellach. |
| Cod Cymhwyster CBAC | i'w gadarnhau |
| Rhif QiW | i'w gadarnhau |
| Grwpiau oedran cymeradwy | 14–16, 16–19, 19+ |
| Addysgu am y tro cyntaf | Medi 2027 |
| Ardystio am y tro cyntaf | Haf 2029 |

| Fersiwn | Disgrifiad | Dyddiad |
|---|---|---|
| 1 | | |
| Gall ein manylebau newid dros amser. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser. | | |

DRAFT

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith Gwneud i Gymru sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw Gymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith newydd a Gymeradwywyd i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2027 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.

**Hawlfraint**
© WJEC CBAC Limited 2026.

## Grymuso dysgwyr, cefnogi athrawon

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae gennym fwy na 75 mlynedd o brofiad yn cyflwyno cymwysterau o safon y gellir ymddiried ynddynt ac yn cefnogi dysgwyr, addysgwyr, a chyflogwyr ledled Cymru.

Darparwn amrywiaeth eang o gymwysterau dwyieithog sy'n hygyrch, yn ennyn diddordeb, ac wedi'u bwriadu i fodloni anghenion dysgwyr heddiw.

I ategu ein cymwysterau mae gennym dimau pynciol arbenigol, adnoddau o safon, a chefnogaeth arbenigol, ymatebol. Y cydweithio agos ag ysgolion, colegau, consortia rhanbarthol, arbenigwyr sector a Cymwysterau Cymru sy'n llywio ac yn llunio ein gwaith.

Ni yw'r unig gorff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau ym mhob cyfres o'r hyn sydd ar gael fel Cymwysterau Cenedlaethol 14-16. Rydym yn falch iawn felly o fod â rôl allweddol yn cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i wneud addysg yng Nghymru yn rhywbeth y gall y genedl fod yn falch ohono. Mae'n ymrwymiad gennym i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial ac i symud ymlaen yn hyderus.

## Sylfaen gref i lwyddo yn y dyfodol

Mae ein Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith wedi'u llunio i ysbrydoli a chefnogi dysgwyr, gan gynnig rhaglen dros ddwy flynedd sy'n hygyrch, deniadol, ac wedi'i gwreiddio mewn dysgu yn y byd go iawn. Gyda phwyslais cryf ar weithgareddau a phrofiad ymarferol, mae'r cymwysterau hyn yn helpu dysgwyr i feithrin hyder, datblygu sgiliau hanfodol, a mwynhau llwyddiant ystyrlon.

Un o nodweddion allweddol ein Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yw eu strwythur unedol, gan ganiatáu i ddysgwyr gwblhau rhai asesiadau ym Mlwyddyn 10 ac asesiadau eraill ym Mlwyddyn 11. Mae'r dull fesul cam hwn yn cynnig cyflymder dysgu hylaw, yn lleihau pwysau asesu, ac yn cefnogi cynnydd cyson, ystyrlon.

Mae ein dull hyblyg o asesu yn grymuso athrawon i greu gweithgareddau asesu ystyrlon, sy'n canolbwyntio ar y dysgwr wrth sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd teg a phriodol i ddangos eu cyflawniadau. Mae'r cyfuniad o feini prawf asesu wedi'u diffinio'n glir a dyluniad tasgau hyblyg yn hyrwyddo profiadau dysgu pwrpasol sy'n cefnogi cynnydd, yn dathlu cryfderau unigol, ac yn adlewyrchu'r gwahanol ffyrdd y mae dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau.

Mae ein dull graddio cydadferol yn cydnabod y gall dysgwyr berfformio'n wahanol ar draws y cymhwyster Mae ein dull yn galluogi perfformiad cryfach mewn un maes i wrthbwyso perfformiad is mewn maes arall, gan gyfrannu at brofiad asesu tecach a mwy cefnogol.

Gyda chynnwys sy'n berthnasol, sy'n cymell ac sydd wedi'i deilwra i anghenion dysgwyr, mae ein Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer symud ymlaen i astudiaethau ôl 16.

P'un a yw dysgwyr yn parhau i astudio'r pwnc ai peidio, byddant yn ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gwerthfawr, gan deimlo eu bod wedi cyflawni mewn ffordd sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 6
   1.1. Pwrpas a nodau ..... 6
   1.2. Cwricwlwm i Gymru ..... 6
   1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant ..... 7
   1.4. Oriau dysgu dan arweiniad a Chyfanswm Amser Cymhwyso ..... 7
   1.5. Y defnydd o iaith ..... 8
   1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg ..... 8
2. Unedau ..... 9
   2.1. Fformat yr unedau ..... 9
   2.2. Bonion deilliannau dysgu ..... 10
   2.3. Cynnwys ..... 10
   2.4 Tasgau asesu ..... 10
   Uned 1 Dod i Adnabod yr Amgylchedd Adeiledig ..... 11
   Uned 2 Sgiliau Llaw Ymarferol ..... 28
3. Asesu ..... 48
   3.1. Tasgau asesu ..... 48
   3.2. Hyd yr asesiad ..... 48
   3.3. Gofynion tystiolaeth ..... 49
   3.4. Cefnogaeth ac arweiniad ..... 50
   3.5. Goruchwylio a dilysu ..... 50
   3.6. Marcio (dyfarniadau asesu) ..... 50
   3.7. Ailgyflwyno tystiolaeth cyn cymedroli ..... 51
   3.8. Camymddwyn ..... 52
4. Gwybodaeth dechnegol ..... 53
   4.1. Cofrestru ar gyfer unedau ..... 53
   4.2. Cofrestru ar gyfer y cymhwyster ..... 53
   4.3. Graddio ac adrodd yn ôl ..... 54
   4.4. Ailsefyll asesiadau ar ôl cymedroli allanol ..... 55
   4.5. Ailwneud y cymhwyster ..... 55

Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ..... 56


DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Crynodeb o'r asesu

| Uned 1: Dod i Adnabod yr Amgylchedd Adeiledig<br>Asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan y Ganolfan |
|---|
| Mae pedwar deilliant dysgu yn yr uned hon ac mae'n canolbwyntio ar ddysgu am beth yw'r sector amgylchedd adeiledig, sut mae'n gweithio a'r rolau swyddi o fewn y sector.<br>Portffolio o dystiolaeth – uchafswm amser asesu o 9 awr.<br>Wedi'i hasesu yn y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC. |
| Uned 2: Sgiliau Dwylo Ymarferol<br>Asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan y Ganolfan |
| Mae saith deilliant dysgu yn yr uned hon ac mae'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau offer a deunydd ymarferol allweddol, sgiliau iechyd a diogelwch ac adolygu sgiliau.<br>Portffolio o dystiolaeth – uchafswm amser asesu o 21 awr.<br>Wedi'i hasesu yn y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC. |

Cymhwyster unedol yw hwn.

Mae Uned 1 yn uned ragarweiniol a bwriedir iddi gael ei haddysgu gyntaf.

Bydd Uned 1 ar gael o Haf 2028, a bydd Uned 2 ar gael yn haf 2029.

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn 2029.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Pwrpas a nodau

Mae Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith CBAC wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, gan ddarparu profiadau dysgu perthnasol ac ystyrlon sy'n adlewyrchu eu cam datblygiad. Mae'r cymwysterau wedi'u gwreiddio'n gadarn yng nghyd-destun Cymru ac economi Cymru, gan sicrhau bod dysgwyr yn ymgysylltu â chynnwys sy'n ddilys yn lleol ac yn arwyddocaol yn genedlaethol.

Mae Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn cynnig cynnwys ac asesu deniadol a hygyrch sy'n cefnogi datblygu sgiliau ymarferol, gwybodaeth a dealltwriaeth. Drwy gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, mae'r cymwysterau hyn yn cyfrannu at wireddu ei bedwar diben a'i egwyddorion cynnydd, gan helpu dysgwyr i ddod yn uchelgeisiol, yn alluog ac yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.

Yn ogystal, mae Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth a llwybrau i astudiaethau ôl-16, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol sy'n arwain at gymhwysedd galwedigaethol. Mae hyn yn sicrhau bod dysgwyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu camau nesaf mewn addysg neu hyfforddiant.

Nod y Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn yr Amgylchedd Adeiledig yw cefnogi dysgwyr i wneud y canlynol:

- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth hanfodol o'r amgylchedd adeiledig, ei gylchred oes a natur benodol yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru
- deall y sector amgylchedd adeiledig sy'n cwmpasu gwahanol rolau crefftau a swyddi proffesiynol
- datblygu sgiliau ymarferol dysgwyr mewn perthynas â thasgau sy'n briodol i'w hoedran yn ddiogel ac yn effeithiol
- meithrin sgiliau trosglwyddadwy megis cyfathrebu, cynllunio ac adolygu
- symud ymlaen i TAAU Amgylchedd Adeiledig neu gyrsiau Lefel 1 i 3 eraill fel y bo'n briodol.

## 1.2. Cwricwlwm i Gymru

Mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn sail i'r Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith Amgylchedd Adeiledig hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i'r dyluniad hwn y mae'r egwyddorion cynnydd[1], ynghyd â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig[2] ym Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodwyd yn Adran 2.3; Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

Mae'r Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith Amgylchedd Adeiledig yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy:

[1] Cwricwlwm i Gymru – Hwb
[2] Cwricwlwm i Gymru – Hwb

© WJEC CBAC Ltd 2026.
DRAFT

- gefnogi datganiadau o'r hyn sy'n bwysig Gwyddoniaeth a Thechnoleg gan roi cyfle i ddysgwyr wneud y canlynol:
  - meithrin dealltwriaeth o rai o'r cysyniadau sy'n sail i wyddoniaeth a thechnoleg, a'u cymhwysiad mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang
  - deall a gwerthfawrogi sut a pham mae'r amgylchedd adeiledig yn eu hardal leol ac mewn mannau eraill yng Nghymru wedi'i gynllunio, ei adeiladu ac yn gallu newid
  - datblygu sgiliau meddylfryd dylunio a gwybodaeth dechnegol i helpu i fodloni anghenion a dymuniadau cymdeithas
- cefnogi egwyddorion cynnydd Gwyddoniaeth a Thechnoleg drwy annog dysgwyr i wneud y canlynol:
  - datrys problemau a deall y gall dylunio fod yn iterus
  - datblygu gwydnwch a mwy o annibyniaeth
  - cynyddu ehangder a dyfnder eu gwybodaeth a chysyniadau sylfaenol
  - mireinio cymhwyso'u sgiliau trwy archwilio ac adolygu
  - dangos gallu cynyddol i drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth bresennol i gyd-destunau newydd, a chynyddol anghyfarwydd.

## 1.3. Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad oes gofyniad ffurfiol am ddysgu blaenorol, mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio'n bennaf i ddysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, sy'n gweithio ar lefel mynediad Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC). Mae'n adeiladu ar sgiliau a dealltwriaeth sylfaenol a ddatblygwyd trwy brofiadau dysgu cynharach, fel arfer rhwng 3 ac 14 oed.

Mae'r cymhwyster hwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau hanfodol ac i fagu hyder, gan ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer dysgu yn y dyfodol a bywyd pob dydd. Mae hefyd yn paratoi dysgwyr i symud ymlaen i astudiaethau pellach, hyfforddiant, neu gyflogaeth. Mae cynnwys Llwyddiant ar Lefel 1 yn cydnabod lefelau uwch o gyflawniad ac yn darparu llwybr clir i gymwysterau Lefel 1/2, gan gynnwys TAAU Amgylchedd Adeiledig, ac yn cefnogi dilyniant parhaus a dyheadau dysgwyr. Yn ogystal, mae'r cymhwyster yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.4. Oriau dysgu dan arweiniad a Chyfanswm Amser Cymhwyso

Lluniwyd Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith Amgylchedd Adeiledig i'w gyflwyno dros gyfnod o 120 o oriau dysgu dan arweiniad. Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11. Mae gan ganolfannau hyblygrwydd o ran sut maen nhw'n strwythuro ac yn cyflwyno eu cyrsiau o fewn cyfanswm yr ODA ar gyfer y cymhwyster. Mae swm y cynnwys ym mhob uned yn rhoi syniad o ganran yr ODA y rhagwelir y bydd ei hangen ar gyfer pob uned.

| | ODA |
|---|---|
| Uned 1 | 36 |
| Uned 2 | 84 |
| **Cyfansymiau** | **120 awr** |

Y cyfanswm amser cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys yr ODA ac unrhyw amser ychwanegol i baratoi, astudio a chyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Gan fod Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith wedi'u cynllunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr lefel mynediad cyn-16, bwriedir i'r holl ddysgu ac asesu o fewn y cymhwyster fod dan arweiniad. Yn unol â hynny, cyfanswm amser cymhwyso’r cymhwyster hwn yw 120 awr.

## 1.5. Y defnydd o iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Bydd y derminoleg yn cael ei diweddaru yn ôl yr angen i sicrhau ei bod yn adlewyrchu hunaniaethau unigol ac yn meithrin parch a chywirdeb. Bydd yr iaith a ddefnyddir mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i wneud diwygiadau pellach lle bo'n briodol, i sicrhau ei bod yn cynrychioli ac yn cefnogi pob unigolyn yn gywir. Byddwn yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

## 1.6. Cydraddoldeb a mynediad teg

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i fod yn hygyrch i bob dysgwr, waeth beth fo'i rywedd, ethnigrwydd, crefydd, diwylliant, neu unrhyw nodwedd warchodedig arall fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r nodweddion gwarchodedig hyn yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Mae egwyddorion cynllunio cynhwysol wedi'u cymhwyso drwy’r cymhwyster, gan gynnwys defnyddio fformatau asesu amrywiol, iaith glir a diduedd, ac enghreifftiau amrywiol sy'n adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth y sector amgylchedd adeiledig. Mae pob ymdrech wedi'i wneud i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai greu rhwystrau i fynediad neu gyflawniad na ellir eu cyfiawnhau.

Mae trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ar gael i ddysgwyr cymwys er mwyn sicrhau y gallant gymryd rhan lawn mewn asesiadau a dangos eu gwybodaeth a'u sgiliau. Nid yw'r addasiadau hyn yn newid gofynion bwriadedig yr asesiad ond maent yn cefnogi mynediad teg. Mae canllawiau ar drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w gweld yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) *Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol*: *Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol*, sydd ar gael yn www.jcq.org.uk.

Mae'r cymhwyster hwn yn cadw at yr egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau'r CGC. O ganlyniad i ddylunio cynhwysol a darpariaeth ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr a fydd yn dod ar draws rhwystr llwyr rhag unrhyw ran o'r broses asesu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 2. Unedau

## 2.1. Fformat yr unedau

| | |
|---|---|
| ODA | Mae'n nodi'r nifer amcangyfrifedig o oriau y bydd dysgwr yn ei dreulio dan oruchwyliaeth neu arweiniad uniongyrchol i gwblhau'r uned. Mae hyn yn cynnwys addysgu yn yr ystafell ddosbarth, gweithgareddau ymarferol, ac astudio dan oruchwyliaeth. |
| Trosolwg o'r uned | Mae'n darparu crynodeb cryno o bwrpas, cwmpas a pherthnasedd yr uned. Mae'n amlinellu'r themâu allweddol, y sgiliau a'r meysydd gwybodaeth yr ymdrinnir â nhw, a sut mae'r uned yn cefnogi dilyniant yn y maes galwedigaethol. |
| Deilliannau Dysgu | Mae'n rhestru'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth benodol y disgwylir i ddysgwyr eu dangos ar ôl cwblhau'r uned yn llwyddiannus. |
| Crynodeb o'r asesu | Mae'n crynhoi'r dull asesu ar gyfer yr uned.<br>Mae'r adran hon hefyd yn nodi faint o amser y dylai dysgwyr ei dreulio yn cwblhau asesiadau. |
| Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad | Mae'n cynnwys manylion y deunyddiau, yr offer, y cyfleusterau a'r staffio y mae eu hangen i gynnal yr asesiad yn effeithiol. Mae hyn yn sicrhau cysondeb a thegwch wrth gyflwyno'r cymhwyster ar draws canolfannau. |
| Cysylltau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC | Mae'n nodi cysylltiadau ag unedau neu gymwysterau eraill sy'n cael eu cynnig gan CBAC, gan gynnwys llwybrau dilyniant a/neu gyfleoedd ar gyfer cyflwyno integredig. |
| Cynnwys | Mae'n amlinellu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen eu haddysgu i ddysgwyr er mwyn bodloni'r meini prawf asesu. |
| Meini prawf asesu | Mae'n darparu meini prawf penodol, arsylladwy, a mesuradwy y mae'n rhaid i ddysgwyr eu bodloni i ddangos cyflawni'r deilliant dysgu. Darperir pedwar band gwahanol o feini prawf asesu, sy'n adlewyrchu lefelau gwahanol o allu dysgwyr. |
| Tasgau enghreifftiol | Mae'n darparu amrywiaeth o dasgau addas ar gyfer pob lefel o feini prawf asesu. Nid yw'r tasgau hyn yn orfodol. Dylai athrawon sicrhau bod tasgau a gweithgareddau asesu yn addas ar gyfer anghenion a galluoedd pob grŵp o ddysgwyr. |
| Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu | Mae'n tynnu sylw at brofiadau dysgu a allai gael eu cynhyrchu drwy gyflwyno'r uned. Mae mwy o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y canllawiau addysgu.<br>Ni fydd asesu uniongyrchol o'r profiadau. |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 2.2. Bonion deilliannau dysgu

Yng nghymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith CBAC, defnyddir bonion deilliannau dysgu i nodi dyfnder a math y dysgu a ddisgwylir.

Defnyddir 'Bydd dysgwyr yn gwybod' neu 'Bydd dysgwyr yn ymwybodol' pan ddisgwylir i ddysgwyr alw i gof ffeithiau syml neu adnabod gwybodaeth allweddol.

Defnyddir 'Bydd dysgwyr yn deall' pan fydd angen i ddysgwyr ddangos eu bod yn gallu gwneud synnwyr o gysyniadau sylfaenol a'u cymhwyso mewn sefyllfaoedd cyfarwydd, â chymorth.

Defnyddir 'Bydd dysgwyr yn gallu' pan ddisgwylir i ddysgwyr gyflawni tasgau ymarferol syml, dilyn cyfarwyddiadau, neu ddangos technegau sylfaenol.

Mae'r bonion hyn yn sicrhau bod deilliannau'n hygyrch, yn gyraeddadwy, ac yn briodol i ddysgwyr sylfaen sy'n datblygu hyder mewn meysydd galwedigaethol.

## 2.3. Cynnwys

Darperir cynnwys ar gyfer pob deilliant dysgu, sy'n amlinellu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y mae angen eu haddysgu i ddysgwyr er mwyn iddyn nhw fodloni'r meini prawf asesu.

Rhaid cyflwyno'r holl gynnwys oni nodir fel arall:

- mae'r defnydd o'r ymadrodd 'gan gynnwys' yn golygu bod y cynnwys dan sylw yn orfodol ac y gallai gael ei asesu. Gall canolfannau hefyd ddewis ymgorffori cynnwys neu enghreifftiau ychwanegol y tu hwnt i'r rhai a restrir
- mae'r defnydd o'r geiriau 'er enghraifft', 'fel' neu 'megis' yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid defnyddio enghreifftiau eraill.

## 2.4 Tasgau asesu

Darperir tasgau asesu enghreifftiol ar ddiwedd pob uned ynghyd ag unrhyw ofynion adnoddau penodol. Mae'r tasgau hyn wedi'u cynllunio i gydbwyso hydrinedd, ymgysylltiad dysgwyr, dibynadwyedd a dilysrwydd.

Gall canolfannau ddewis defnyddio'r tasgau hyn fel y maent wedi'u cyflwyno, eu haddasu neu ddatblygu dewisiadau amgen eu hunain. Rhaid i unrhyw dasgau a ddyfeisiwyd gan y ganolfan alluogi dysgwyr i fodloni'r holl feini prawf asesu cysylltiedig.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Uned 1 Dod i Adnabod yr Amgylchedd Adeiledig

| | |
|---|---|
| **ODA** | 36 |
| **Trosolwg o'r uned** | Mae'r sector amgylchedd adeiledig yn fawr ac yn amrywiol, ac mae'r uned hon yn ymwneud â deall y sector fel bod gan ddysgwyr wybodaeth sylfaenol briodol.<br><br>Mae'n cwmpasu amrediad eang o ddisgyblaethau, gan gynnwys pensaernïaeth, adeiladu, peirianneg a chynllunio trefol sydd i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i siapio'r mannau lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn rhyngweithio.<br><br>Mae'r uned hon yn cyflwyno dysgwyr i'r sector, ei gwmpas a'i brif weithgareddau, ystyriaethau a phrosesau. Pwrpas yr uned hon yw archwilio:<br><br>• maint ac amrywiaeth y sector<br>• meysydd ac arferion allweddol o fewn y sector sy'n hanfodol ar gyfer projectau adeiladu<br>• rolau swyddi allweddol. |
| **Deilliannau Dysgu** | Drwy gwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:<br><br>1.1 gwybod beth yw'r amgylchedd adeiledig<br>1.2 gwybod beth yw cylchred oes yr amgylchedd adeiledig<br>1.3 deall yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru<br>1.4 deall rolau swyddi yn y sector amgylchedd adeiledig. |
| **Crynodeb o'r asesu** | Bydd asesu ar gyfer yr uned hon yn cael ei gynnal trwy weithgareddau a osodir gan yr athro/athrawes sy'n galluogi dysgwyr i ddangos yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu mewn ffyrdd ymarferol a hygyrch.<br><br>Er mwyn cyflawni pob deilliant dysgu, rhaid i ddysgwyr ddarparu tystiolaeth sy'n bodloni'r meini prawf asesu. Mae tasgau enghreifftiol wedi'u cynnwys ar ôl yr uned.<br><br>Rhaid i ganolfannau sicrhau nad yw gweithgareddau asesu yn hirach na'r uchafswm hyd o 9 awr. I'r rhan fwyaf o ddysgwyr, bydd yr asesu fel arfer o fewn yr amrediad dangosol o 7–9 awr, er y gellir defnyddio cyfnodau byrrach lle bo hynny'n briodol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr Lefel Mynediad. Ni ddylid trin yr amrediad fel lleiafswm, a rhaid i ganolfannau osgoi gorasesu.<br><br>Rhaid i ganolfannau gofnodi'r amser bras y mae pob dysgwr yn ei dreulio ar weithgareddau asesu at ddibenion cymedroli a sicrhau ansawdd. |
| **Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad** | Nid oes anghenion penodol ar gyfer yr asesiad. |
| **Cysylltau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC** | Efallai y bydd gan ddysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon ddiddordeb hefyd yn y canlynol:<br><br>Sgiliau Bywyd: Rheoli a Chynnal a Chadw Cartref |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | Sgiliau Bywyd: Gwyddoniaeth a Thechnoleg mewn Bywyd Bob Dydd<br>Sgiliau Bywyd: Sgiliau yn yr Amgylchedd Naturiol<br>Sgiliau Bywyd: Cynaliadwyedd ar Waith<br>Sgiliau Gwaith: Archwilio Llwybrau Gyrfa<br>Sgiliau Gwaith: Swyddi ar gyfer y Dyfodol<br>Sgiliau Gwaith: Datblygu Economaidd Cynaliadwy<br>Sgiliau Gwaith: Profiad Gwaith<br>Sgiliau Gwaith: Gweithio yng Nghymru |

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Cynnwys

| **Deilliant dysgu 1.1**<br><br>**Bydd y dysgwr yn gwybod beth yw'r amgylchedd adeiledig** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| 1.1.1<br>Adeiladau ac adeileddau | Gwahanol fathau o adeiladau:<br><br>• preswyl:<br>    • blociau fflatiau<br>    • tai sengl<br>    • tai pâr<br>    • tai teras<br>• amhreswyl:<br>    • adeiladau amaethyddol: ysguboriau, ffermydd<br>    • adeiladau masnachol: swyddfeydd, canolfannau siopa, siopau<br>    • adeiladau cymunedol: ysbytai, llyfrgelloedd, ysgolion<br>    • adeiladau diwydiannol: ffatrïoedd, warysau<br>    • adeiladau adloniant: sinemâu, canolfannau hamdden, stadia<br>    • adeiladau crefyddol: eglwysi, gurdwaras, mosgiau, synagogau.<br><br>Gwahanol rannau adeileddol adeilad:<br><br>• tanadeiledd:<br>    • sylfeini<br>    • isloriau<br>    • llawr gwaelod<br>    • waliau cynnal<br>• aradeiledd:<br>    • ffabrig adeiladu/ffrâm adeileddol<br>    • waliau<br>    • cladin waliau<br>    • adeiledd to<br>    • gorffeniadau to.<br><br>Gwahanol fathau o adeiladwaith adeiladau:<br><br>• estyniad i adeilad<br>• cadwraeth/adfer<br>• trawsnewid<br>• adeilad newydd<br>• ailwampio/adnewyddu. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| 1.1.2<br>Isadeiledd | Gwahanol fathau o isadeiledd:<br><br>• pontydd a thwneli<br>• rhwydweithiau gwefru cerbydau trydan<br>• rhwydweithiau egni: trydan, nwy<br>• cyfleusterau parcio<br>• mannau cyhoeddus: parciau, meysydd chwarae<br>• trafnidiaeth: ffyrdd, traffyrdd<br>• systemau tramwy: meysydd awyr, lonydd beiciau, bysiau, llwybrau i gerddwyr, rheilffyrdd<br>• systemau telathrebu<br>• cyflenwad dŵr a systemau carthffosiaeth. |
| 1.1.3<br>Cyfleustodau a gwasanaethau | Gwahanol fathau o gyfleustodau:<br><br>• draenio a charthffosiaeth<br>• nwy<br>• dŵr.<br><br>Gwahanol fathau o wasanaethau:<br><br>• trydanol<br>• rhyngrwyd a thelathrebu<br>• gwresogi ac awyru<br>• mecanyddol<br>• plymio. |
| 1.1.4<br>Ystyriaethau amgylcheddol | Prif bryderon ar gyfer projectau adeiladu:<br><br>• bioamrywiaeth, er enghraifft osgoi ardaloedd sensitif, creu lleiniau clustogi, cadw cynefinoedd naturiol, dylunio cynaliadwy<br>• allyriadau carbon er enghraifft, dewis deunyddiau carbon isel, gwrthbwyso carbon, defnyddio cyflenwyr lleol<br>• gwydnwch rhag yr hinsawdd er enghraifft osgoi ardaloedd risg uchel, cael systemau draenio priodol, defnyddio deunyddiau dwr-wrthiannol. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu 1.2**<br><br>**Bydd y dysgwr yn gwybod am gylchred oes yr amgylchedd adeiledig** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| 1.2.1<br>Camau cylchred oes yr amgylchedd adeiledig | Y gwahanol gamau:<br><br>• cynllunio a dichonoldeb – sicrhau bod project yn ymarferol, cynnal dadansoddiad safle ac asesiadau<br>• dylunio – creu lluniadau a manylebau manwl, amcangyfrifon cost<br>• adeiladu – adeiladu'r dyluniad ei hun, rheoli iechyd a diogelwch, rheoli ansawdd ac arolygu<br>• trosglwyddo – trosglwyddo'r project a gwblhawyd i'r cleient, gan sicrhau ei fod yn barod i'w weithredu<br>• defnydd gweithredol a chynnal a chadw – cadw'r adeilad yn weithredol, yn ddiogel ac yn effeithlon drwy gydol ei oes, gwiriadau iechyd a diogelwch, cynnal a chadw rheolaidd ac ataliol<br>• ailwampio neu adnewyddu – uwchraddio, moderneiddio neu adfer adeilad presennol i ymestyn ei oes, gwella perfformiad neu fodloni safonau newydd<br>• datgomisiynu neu ddymchwel ac ailgylchu – tynnu'r adeilad yn ddiogel, rheoli deunyddiau yn gyfrifol. |
| 1.2.2<br>Pwrpas cylchred oes yr amgylchedd adeiledig | Pam mae'n cael ei defnyddio:<br><br>• y manteision er enghraifft, arbedion cost, gwneud penderfyniadau effeithiol, fframwaith strwythuredig<br>• beth sy'n digwydd os na chaiff ei ddefnyddio er enghraifft, costau uwch, rheoli risg gwael, ffocws tymor byr. |
| 1.2.3<br>Ailgylchu, ailddefnyddio a gwaredu gwastraff | Dulliau arferion gorau:<br><br>• cael cynllun rheoli gwastraff<br>• lleihau faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu gydag archebu cywir<br>• ailgylchu deunyddiau lle bynnag y bo modd mewn sgipiau ar wahân<br>• ailddefnyddio/adennill deunyddiau heb eu defnyddio lle bynnag y bo modd. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu 1.3**<br><br>**Bydd y dysgwr yn deall yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| 1.3.1<br>Dosbarthu tir yng Nghymru | Sut mae tir yn cael ei ddosbarthu:<br><br>• tir llwyd (a ddatblygwyd o'r blaen)<br>• tir glas (heb ei ddatblygu).<br><br>Manteision ac anfanteision:<br><br>• tir llwyd – yn agos at isadeiledd; costau dymchwel, halogiad posibl<br>• tir glas – opsiynau dylunio hyblyg, materion cynllunio, diogelu natur. |
| 1.3.2<br>Rhanddeiliaid allanol | Pobl allweddol:<br><br>• swyddogion rheolaeth adeiladu<br>• cleientiaid<br>• rhanddeiliaid cymunedol megis busnesau a grwpiau lleol, preswylwyr<br>• awdurdodau lleol, er enghraifft, adrannau cynllunio a phriffyrdd, swyddogion cynllunio<br>• isgontractwyr. |
| 1.3.3<br>Datblygu'r amgylchedd adeiledig yng Nghymru | Prif heriau:<br><br>• mynediad at gyfleustodau a gwasanaethau<br>• cost a dosbarthu deunyddiau<br>• anghenion tai<br>• argaeledd tir a maint y safle<br>• cysylltiadau trafnidiaeth ac isadeiledd.<br><br>Enghreifftiau o ddatblygiadau yng Nghymru:<br><br>• gwledig: er enghraifft, Ecobentref Lammas yn Sir Benfro, Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis<br>• trefol: er enghraifft, adfywio Bae Caerdydd, ailddatblygu Marchnad y Frenhines yn y Rhyl. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu 1.4**<br><br>**Bydd y dysgwr yn deall rolau swyddi yn y sector amgylchedd adeiledig** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| 1.4.1<br>Swyddi crefft | Rôl a chyfrifoldeb y canlynol:<br><br>• gosodwr brics<br>• trydanwr/trydanwraig<br>• gweithiwr treftadaeth<br>• peintiwr ac addurnwr<br>• plastrwr<br>• plymwr<br>• töwr<br>• teilsiwr<br>• saer coed (saer/asiedydd). |
| 1.4.2<br>Swyddi adeiladu proffesiynol | Rôl a chyfrifoldeb y canlynol:<br><br>• pensaer<br>• peiriannydd gwasanaethau adeiladu<br>• syrfëwr adeiladu<br>• peiriannydd sifil<br>• rheolwr contractau<br>• tirfesurydd<br>• rheolwr safle<br>• peiriannydd adeileddol<br>• syrfëwr meintiau. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Meini prawf asesu

Dyrannwyd pwyntiau i bob maen prawf asesu sy'n cynrychioli lefel gweithio'r dysgwr. Dyrennir **1** pwynt i bob maen prawf Mynediad 1, dyrennir **2** bwynt i bob maen prawf Mynediad 2, dyrennir **3** phwynt i bob maen prawf Mynediad 3 a dyrennir **4** pwynt i bob maen prawf Lefel 1.

Dyfernir gradd yr uned yn seiliedig ar gyfanswm nifer y pwyntiau a enillwyd gan y dysgwr fel y nodir yn adran 4.3 Graddio ac adrodd yn ôl.

| Deilliant dysgu | Meini prawf asesu – gall y dysgwr: | | | | Pwyntiau a roddwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mynediad 1 gyda lefel uchel o gymorth: (1 pwynt) | Mynediad 2 gyda lefel ganolig o gymorth: (2 bwynt) | Mynediad 3 gyda'r lefel leiaf bosibl o gymorth: (3 phwynt) | Lefel 1 yn annibynnol: (4 pwynt) | |
| DD1.1<br>Bydd y dysgwr yn gwybod beth yw'r amgylchedd adeiledig | 1.1.1<br>Enwi rhai gwahanol fathau o adeiladau ac adeiladwaith adeiladau. | 1.1.1<br>Rhoi'r gwahanol fathau o adeiladau ac adeiladwaith adeiladau. | 1.1.1<br>Nodi'r gwahanol adeiladau ac adeiladwaith adeiladau a rhoi rhai enghreifftiau. | 1.1.1<br>Nodi defnydd/pwrpas gwahanol adeiladau ac adeiladwaith adeiladau gan ddefnyddio enghreifftiau. | /4 |
| | 1.1.2<br>Labelu rhai gwahanol rannau adeileddol adeilad. | 1.1.2<br>Rhoi gwahanol rannau adeileddol adeilad. | 1.1.2<br>Nodi gwahanol rannau adeileddol adeilad a rhoi rhai enghreifftiau. | 1.1.2<br>Nodi pwrpas gwahanol rannau adeileddol adeilad gan ddefnyddio enghreifftiau. | /4 |
| | 1.1.3<br>Enwi rhai gwahanol fathau o isadeiledd. | 1.1.3<br>Rhoi'r gwahanol fathau o isadeiledd. | 1.1.3<br>Nodi'r gwahanol fathau o isadeiledd a rhoi rhai enghreifftiau. | 1.1.3<br>Nodi defnydd/pwrpas gwahanol fathau o isadeiledd gan ddefnyddio enghreifftiau. | /4 |
| | 1.1.4<br>Enwi rhai gwahanol fathau o gyfleustodau a gwasanaethau. | 1.1.4<br>Rhoi'r gwahanol fathau o gyfleustodau a gwasanaethau. | 1.1.4<br>Nodi pwrpas gwahanol gyfleustodau a gwasanaethau a rhoi rhai enghreifftiau. | 1.1.4<br>Nodi pwrpas gwahanol gyfleustodau a gwasanaethau gan ddefnyddio enghreifftiau. | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu** | **Meini prawf asesu – gall y dysgwr:** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gymorth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda lefel ganolig o gymorth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda'r lefel leiaf bosibl o gymorth: (3 phwynt)** | **Lefel 1 yn annibynnol: (4 pwynt)** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD1.1<br>Bydd y dysgwr yn gwybod beth yw'r amgylchedd adeiledig | 1.1.5<br>Rhestru rhai prif ystyriaethau amgylcheddol ar gyfer projectau adeiladu. | 1.1.5<br>Rhoi'r prif ystyriaethau amgylcheddol ar gyfer projectau adeiladu. | 1.1.5<br>Nodi'r prif ystyriaethau amgylcheddol ar gyfer projectau adeiladu a rhoi rhai enghreifftiau. | 1.1.5<br>Nodi'r prif ystyriaethau amgylcheddol ar gyfer projectau adeiladu gan ddefnyddio enghreifftiau. | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu** | **Meini prawf asesu – gall y dysgwr:** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gymorth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda lefel ganolig o gymorth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda'r lefel leiaf bosibl o gymorth: (3 phwynt)** | **Lefel 1 yn annibynnol: (4 pwynt)** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD1.2<br>Bydd y dysgwr yn gwybod beth yw cylchred oes yr amgylchedd adeiledig | 1.2.1<br>Enwi rhai o wahanol gamau cylchred oes yr amgylchedd adeiledig. | 1.2.1<br>Rhoi gwahanol gamau cylchred oes yr amgylchedd adeiledig. | 1.2.1<br>Nodi gwahanol gamau cylchred oes yr amgylchedd adeiledig a rhoi rhai enghreifftiau. | 1.2.1<br>Nodi gwahanol gamau cylchred oes yr amgylchedd adeiledig gan ddefnyddio enghreifftiau. | /4 |
| | 1.2.2<br>Enwi rhai manteision syml defnyddio cylchred oes yr amgylchedd adeiledig, a chanlyniadau peidio â'i defnyddio. | 1.2.2<br>Rhoi rhai manteision defnyddio cylchred oes yr amgylchedd adeiledig, a chanlyniadau peidio â'i defnyddio. | 1.2.2<br>Nodi gwahanol bwrpasau cylchred oes yr amgylchedd adeiledig a rhoi rhai enghreifftiau. | 1.2.2<br>Nodi gwahanol bwrpasau cylchred oes yr amgylchedd adeiledig gan ddefnyddio enghreifftiau. | /4 |
| | 1.2.3<br>Enwi rhai ffyrdd sylfaenol y mae ailgylchu, ailddefnyddio a gwaredu gwastraff yn bwysig. | 1.2.3<br>Rhoi rhai ffyrdd y mae ailgylchu, ailddefnyddio a gwaredu gwastraff yn bwysig. | 1.2.3<br>Nodi ffyrdd y mae ailgylchu, ailddefnyddio a gwaredu gwastraff yn bwysig a rhoi rhai enghreifftiau. | 1.2.3<br>Nodi ffyrdd y mae ailgylchu, ailddefnyddio a gwaredu gwastraff yn bwysig gan ddefnyddio enghreifftiau. | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| Deilliant dysgu | Meini prawf asesu – gall y dysgwr: | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gymorth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda lefel ganolig o gymorth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda'r lefel leiaf bosibl o gymorth: (3 phwynt)** | **Lefel 1 yn annibynnol: (4 pwynt)** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD1.3<br>Bydd y dysgwr yn deall yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru | 1.3.1<br>Dewis enghreifftiau o'r ddau fath o ddosbarthiad tir. | 1.3.1<br>Crynhoi'r ddau fath o ddosbarthiad tir gydag enghraifft ar gyfer pob un. | 1.3.1<br>Amlinellu'r ddau fath o ddosbarthiad tir a rhoi rhai enghreifftiau o Gymru. | 1.3.1<br>Esbonio'r ddau fath o ddosbarthiad tir gan ddefnyddio enghreifftiau o Gymru. | /4 |
| | 1.3.2<br>Dewis rhai manteision ac anfanteision syml y ddau fath o ddosbarthiad tir. | 1.3.2<br>Dewis rhai manteision ac anfanteision y ddau fath o ddosbarthiad tir. | 1.3.2<br>Amlinellu manteision ac anfanteision y ddau fath o ddosbarthiad tir a rhoi rhai enghreifftiau o Gymru. | 1.3.2<br>Esbonio manteision ac anfanteision y ddau fath o ddosbarthiad tir, gan ddefnyddio enghreifftiau o Gymru. | /4 |
| | 1.3.3<br>Dewis rhai rhanddeiliaid allanol. | 1.3.3<br>Awgrymu rhai rhanddeiliaid allanol. | 1.3.3<br>Amlinellu pwy yw rhanddeiliaid allanol gan ddefnyddio rhai enghreifftiau o Gymru. | 1.3.3<br>Esbonio pwy yw rhanddeiliaid allanol gan ddefnyddio enghreifftiau o Gymru. | /4 |
| | 1.3.4<br>Dewis rhai heriau syml wrth ddatblygu'r amgylchedd adeiledig yng Nghymru. | 1.3.4<br>Awgrymu rhai heriau wrth ddatblygu'r amgylchedd adeiledig yng Nghymru. | 1.3.4<br>Amlinellu'r heriau wrth ddatblygu'r amgylchedd adeiledig yng Nghymru gan ddefnyddio rhai enghreifftiau o Gymru. | 1.3.4<br>Disgrifio'r heriau wrth ddatblygu'r amgylchedd adeiledig yng Nghymru gan ddefnyddio enghreifftiau o Gymru. | /4 |
| | 1.3.5<br>Dewis rhai datblygiadau trefol a/neu wledig yng Nghymru. | 1.3.5<br>Dewis rhai datblygiadau trefol a gwledig yng Nghymru. | 1.3.5<br>Amlinellu rhai o brif nodweddion gwahanol ddatblygiadau yng Nghymru. | 1.3.5<br>Disgrifio prif briodoleddau a nodweddion rhai gwahanol ddatblygiadau yng Nghymru. | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu** | **Meini prawf asesu – gall y dysgwr:** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gymorth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda lefel ganolig o gymorth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda'r lefel leiaf bosibl o gymorth: (3 phwynt)** | **Lefel 1 yn annibynnol: (4 pwynt)** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD1.4 Bydd y dysgwr yn deall y rolau swyddi yn y sector amgylchedd adeiledig | 1.4.1 Dewis rhai gwahanol swyddi crefft a'u cyfrifoldebau. | 1.4.1 Crynhoi rhai gwahanol rolau swyddi crefft a'u cyfrifoldebau. | 1.4.1 Amlinellu rhai o brif nodweddion y gwahanol rolau swyddi crefft a'u cyfrifoldebau. | 1.4.1 Disgrifio rolau a chyfrifoldebau'r holl wahanol swyddi crefft. | /4 |
| | 1.4.2 Dewis rhai gwahanol swyddi adeiladu proffesiynol a'u cyfrifoldebau. | 1.4.2 Crynhoi rhai gwahanol rolau swyddi adeiladu proffesiynol a'u cyfrifoldebau. | 1.4.2 Amlinellu rhai o brif nodweddion y gwahanol rolau adeiladu proffesiynol a'u cyfrifoldebau. | 1.4.2 Disgrifio rolau a chyfrifoldebau'r holl wahanol swyddi adeiladu proffesiynol. | /4 |
| | | | | **Cyfanswm nifer y pwyntiau a roddwyd** | **/60** |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Enghreifftiau o dasgau

### DD1.1

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda chymorth lefel uchel):

- creu un set o gardiau gyda lluniau o wahanol fathau o adeiladau/adeiladwaith adeiladau/isadeiledd/cyfleustodau a gwasanaethau a set arall o gardiau gyda dau/tri opsiwn ar gyfer enwau'r rhain a chael y dysgwr i'w paru gyda'i gilydd
- dangos lluniau o rannau adeileddol adeilad ac mae'r dysgwr yn labelu'r rhain ei hun neu greu labeli i'r dysgwr eu hychwanegu at y llun
- dangos lluniau o wahanol brojectau adeiladu i'r dysgwr a rhoi set o gardiau iddyn nhw gyda gwahanol ystyriaethau amgylcheddol arnyn nhw. Yna mae'r dysgwr yn gwneud rhestr o'r cyfan trwy ddewis y rhai perthnasol sy'n briodol i'r llun.

D.S.: gellid gwneud y tasgau hyn yn ddigidol.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda chymorth canolig):

- defnyddio Google Street View i wneud taith gerdded fer o amgylch ardal leol a thynnu sylw at wahanol fathau o adeiladau/adeiladwaith adeiladau/rhannau adeileddol/isadeiledd/cyfleustodau a gwasanaethau i'r dysgwr eu henwi
- creu cwis rhyngweithiol i'r dysgwr roi enwau'r gwahanol fathau o adeiladau/adeiladwaith adeiladau/rhannau adeileddol/isadeiledd/cyfleustodau a gwasanaethau
- rhoi cyfres o astudiaethau achos projectau adeiladu i'r dysgwr a gofyn iddyn nhw roi'r prif ystyriaethau amgylcheddol ar gyfer pob un.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiaf posibl o gymorth):

- mae'r dysgwr yn creu cyflwyniad, posteri neu arddangosfa mur am wahanol fathau o adeiladau/adeiladwaith adeiladau/rhannau adeileddol/isadeiledd/cyfleustodau a gwasanaethau (gellid defnyddio offer megis Canva for Education)
- mewn parau mae dysgwyr yn cyfweld â'i gilydd am wahanol fathau o adeiladau/adeiladwaith adeiladau/rhannau adeileddol/isadeiledd/cyfleustodau a gwasanaethau
- mae'r dysgwyr yn chwarae rôl cyfarfod cymunedol neu grŵp ffocws rhanddeiliaid am wahanol brojectau adeiladu lle mae gan y rhanddeiliaid wahanol bryderon amgylcheddol – rhowch senarios a gwahanol rolau rhanddeiliaid iddyn nhw eu chwarae a rhowch wybodaeth am y pryderon amgylcheddol ar gyfer pob un.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (i'w gwneud yn annibynnol):

- mewn parau neu grwpiau bach mae'r dysgwyr yn trafod defnydd/pwrpas gwahanol adeiladau/adeiladwaith adeiladau/rhannau adeileddol/isadeiledd/cyfleustodau a gwasanaethau ac yn rhoi adborth i grwpiau eraill neu'n cynnal sesiwn holi ac ateb
- mae'r dysgwr yn dyfeisio taith gerdded fer o ardal leol gan ddefnyddio Google Street View ac yn rhoi sylwebaeth am yr adeiladau
- mae'r dysgwr yn ysgrifennu adroddiad am wahanol brojectau adeiladu, yn nodi'r prif bryderon amgylcheddol ac yn cefnogi eu pryderon gan ddefnyddio enghreifftiau eraill o brojectau adeiladu tebyg – gallen nhw wneud hyn mewn parau neu fel cyflwyniad.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

## DD1.2

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda chymorth lefel uchel):

- creu ymarfer llenwi bylchau ar gyfer cylchred oes ac mae'r dysgwr yn ychwanegu'r camau sydd ar goll ac yn darllen y wybodaeth yn ôl, neu mae'r dysgwr yn paru llun o'r cam cylchred oes â disgrifiad o'r cam ac yn darllen y wybodaeth yn ôl – gellid gwneud hyn yn ddigidol
- creu cwis amlddewis rhyngweithiol gyda senarios byr a gofyn i'r dysgwr ddewis manteision a chanlyniadau syml ar gyfer pob un
- creu rhestr syml o bethau a fyddai mewn cynllun rheoli gwastraff a gofyn i'r dysgwr ddewis rheswm sylfaenol o restr ddewisiadau i ddangos pam mae eu hangen – gellid gwneud hyn yn ddigidol.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda chymorth canolig):

- mae'r dysgwr yn creu cardiau sy'n cynrychioli pob cam cylchred oes ac yn eu rhoi mewn trefn
- rhoi cardiau i'r dysgwr sy'n dangos manteision a chanlyniadau'r cylchred oes, yna mae'r dysgwr yn eu trefnu'n grwpiau manteision a chanlyniadau
- rhoi lluniau o wahanol ddeunyddiau i'r dysgwr ac mae'n rhaid iddyn nhw roi'r ffordd gywir o ymdrin ag ef – ailgylchu, ailddefnyddio neu waredu – a dewis rheswm dros eu dewis
- gallai'r dysgwr greu poster syml am bwysigrwydd ailgylchu, ailddefnyddio a gwaredu gwastraff ar brojectau adeiladu.

D.S.: gellid gwneud y tasgau hyn yn ddigidol.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiaf posibl o gymorth):

- mae'r dysgwr yn creu cyflwyniad, posteri neu arddangosfa mur am wahanol gamau'r cylchred oes/ailgylchu, ailddefnyddio a gwaredu gwastraff (gellid defnyddio offer megis Canva for Education)
- rhoi senarios adeiladu i'r dysgwr ac mae'n rhaid iddyn nhw ddweud beth yw manteision defnyddio'r gylchred oes, neu ganlyniadau peidio â'i defnyddio – gellid gwneud hyn yn ddigidol
- dangos lluniau o wahanol brojectau adeiladu a gofyn i'r dysgwr roi ffyrdd o ailgylchu ac ailddefnyddio deunyddiau a gwaredu gwastraff yn effeithiol, a rhoi enghreifftiau o'r prosesau sy'n gysylltiedig.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (i'w gwneud annibynnol):

- mewn parau neu grwpiau bach, maen nhw’n trafod pwysigrwydd gwahanol gamau a dibenion y gylchred oes ac yn creu disgrifiad ar gyfer pob cam a rhestr o enghreifftiau (gallant fod yn enghreifftiau gweledol)
- rhoi gwahanol ddarnau o wybodaeth i'r dysgwr am broject adeiladu – mae'n rhaid iddyn nhw nodi pa gam ydyw a nodi pa gamau eraill sydd angen eu cwblhau a rhoi'r gweithgareddau y byddai hyn yn eu cynnwys – gallech roi nifer o brojectau gwahanol iddyn nhw neu wneud hyn fel gweithgaredd grŵp a rhoi projectau gwahanol i'r grwpiau ac maent yn rhoi adborth ar yr hyn maen nhw wedi'i nodi
- rhoi cynllun rheoli gwastraff diffygiol i'r dysgwr ar gyfer project adeiladu ac mae'n rhaid iddyn nhw nodi'r gwallau a ffyrdd o'i wella – gallen nhw ysgrifennu neu gyflwyno eu

© WJEC CBAC Ltd 2026.

canfyddiadau a'u hargymhellion – gellid gwneud hyn fel tasg parau neu grŵp a defnyddio mwy nag un cynllun enghreifftiol.

DD1.3

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda chymorth lefel uchel):

- rhoi gwahanol luniau o dir llwyd a thir glas ac mae'r dysgwr yn eu trefnu yn ôl y ddau fath
- creu parau o gardiau (gan ddefnyddio enwau neu luniau) sy'n dangos manteision ac anfanteision mathau o ddosbarthiad tir ac mae'r dysgwr yn eu paru
- creu cwis rhyngweithiol lle mae dysgwyr yn cael project adeiladu ac mae'n rhaid iddyn nhw ddewis y rhanddeiliaid allanol perthnasol o gwymplen neu o luniau y byddan nhw'n eu cael
- mae'r dysgwr yn gwrando ar ddisgrifiadau o ddatblygiadau yng Nghymru neu'n eu darllen neu dangosir enghreifftiau o ddatblygiadau yng Nghymru iddyn nhw, ac maen nhw'n dewis o restr yr heriau syml sy'n berthnasol i'r datblygiad
- rhoi lluniau i'r dysgwr o ddatblygiadau trefol a gwledig yng Nghymru a gofyn i'r dysgwr roi'r holl rai trefol gyda'i gilydd a'r holl rai gwledig gyda'i gilydd.

D.S.: gellid gwneud y tasgau hyn yn ddigidol.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda chymorth canolig):

- defnyddio Google Street View i ddangos tir llwyd a thir glas ac mae'r dysgwr yn rhoi crynodeb o sut mae'r rhain yn cael eu dosbarthu – gan ddefnyddio enghreifftiau o'r lluniau
- mewn parau rhoi astudiaeth achos un datblygiad tir llwyd ac un datblygiad tir glas i'r dysgwyr, ac yna maen nhw'n cyfrifo rhai o fanteision ac anfanteision y rhain
- creu proffiliau rhanddeiliaid allanol a gofyn i'r dysgwr awgrymu pa rai sy'n berthnasol i wahanol ddatblygiadau – gellid gwneud hyn yn ddigidol neu drwy chwarae rôl
- gan ddefnyddio enghreifftiau lleol o ddatblygiadau presennol neu ddatblygiadau a gwblhawyd, gofyn i'r dysgwr awgrymu'r heriau y mae'r datblygiad wedi'u hwynebu neu y bydd yn eu hwynebu – gellid defnyddio Google Street View neu fynd i arsylwi'r ardal leol
- gan ddefnyddio map, rhoi ardal ddaearyddol benodol i'r dysgwr neu gyfres o ardaloedd cyferbyniol a gofyn iddyn nhw ddewis rhai datblygiadau trefol a rhai gwledig yng Nghymru a rhoi rheswm dros eu dewis.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiaf posibl o gymorth):

- mae'r dysgwr yn creu cyflwyniad, posteri neu arddangosfa mur am ddosbarthu tir (gellid defnyddio offer megis Canva for Education) gan roi enghreifftiau o Gymru a manteision ac anfanteision datblygu tir llwyd a thir glas
- fel rhan o bleidlais i ddod o hyd i'r datblygiad gorau yng Nghymru – rhowch ddatblygiad gwahanol i bob dysgwr a gofyn iddyn nhw restru ei fanteision – rhaid i'r dysgwyr eraill dynnu sylw at yr anfanteision
- Mewn parau neu grwpiau bach, mae dysgwyr yn ymgymryd â phroject bach ar rai datblygiadau adeiladu yng Nghymru – gwnewch yn siŵr eu bod yn cynnwys o leiaf un tir llwyd ac un tir glas. Rhaid i'r project roi sylw i'r rhanddeiliaid allanol, heriau'r datblygiad a'i brif nodweddion.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (i'w gwneud yn annibynnol):

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

- cynnal dadl lle mae un dysgwr yn dadlau bod datblygu tir llwyd yn well a dysgwr arall yn dadlau'r achos o blaid tir glas – mae'r dosbarth yn pleidleisio dros y person mwyaf perswadiol – gellid gwneud hyn ar ffurf chwarae rôl cyfarfod cynllunio/cyfarfod rhanddeiliaid cyngor lleol
- mae dysgwyr yn ymgymryd â phroject bach ar ddau broject adeiladu yng Nghymru y maen nhw'n eu dewis – un tir llwyd ac un tir glas – gan edrych ar fanteision ac anfanteision pob datblygiad, heriau rhanddeiliaid allanol a phrif briodoleddau a nodweddion y ddau
- gan ddefnyddio gwahanol ddatblygiadau yng Nghymru – gallen nhw fod yn rhai sydd wedi'u cwblhau, wedi'u cynllunio neu wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol – mewn parau neu grwpiau bach mae'r dysgwyr yn cwblhau proforma debyg i 'top trumps' h.y. gwerth cymunedol, effeithiolrwydd cost ac ati ar gyfer pob un. Gallen nhw roi adborth ac yna graddio pob datblygiad a'u rhoi mewn trefn.

## DD1.4

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda chymorth lefel uchel):

- creu dwy set o gardiau – un gyda phob swydd grefft/broffesiynol a'r llall gyda rhestr o'u cyfrifoldebau – gofyn i'r dysgwr baru'r rôl swydd â'r cyfrifoldebau
- rhoi dau neu dri llun gwahanol o bob rôl grefft/broffesiynol i'r dysgwr a gofyn iddyn nhw eu grwpio gyda'i gilydd o dan enw cywir y rôl a dewis y cyfrifoldebau cywir ar gyfer pob un
- creu cwis amlddewis rhyngweithiol gyda disgrifiad byr o dasg grefft/broffesiynol ac mae'r dysgwr yn dewis y math cywir o swydd a'r cyfrifoldeb cywir.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda chymorth canolig):

- creu cerdyn bingo o rolau swyddi i'r dysgwr a phan fydd y rôl swydd yn paru gyda'r hyn sydd ar eu cerdyn, rhaid i'r dysgwr roi manylion am y rôl a'i chyfrifoldebau
- rhoi proffil gweithiwr i'r dysgwr (gyda chliwiau am yr hyn maen nhw'n ei wneud) ac mae'n rhaid iddyn nhw nodi eu rôl a rhoi rhai cyfrifoldebau ar gyfer y rôl – gellid gwneud hyn mewn parau
- Mae'r dysgwr yn creu posteri syml am rai o'r rolau swyddi sy'n dangos eu cyfrifoldebau – gallent hefyd roi cyflwyniad byr gan ddefnyddio'r posteri.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiaf posibl o gymorth):

- mae'r dysgwr yn creu cyflwyniad, posteri neu arddangosfa mur am bob rôl swydd wahanol (gellid defnyddio offer megis Canva for Education)
- mae'r dysgwr yn ysgrifennu disgrifiad swydd neu hysbyseb swydd ar gyfer y gwahanol rolau swydd
- mewn parau mae un dysgwr yn cymryd tro i esgus bod ganddyn nhw rôl swydd benodol, ac mae eu partner yn gofyn cwestiynau iddyn nhw amdani.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (i'w gwneud yn annibynnol):

- mae'r dysgwr yn cynhyrchu fideo byr o'u hunain mewn rôl yn esbonio'r swydd maen nhw'n ei gwneud (gallai fod ar gyfer postiad ar y cyfryngau cymdeithasol er enghraifft, ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o swydd yn y sector).

© WJEC CBAC Ltd 2026.
DRAFT

- mewn parau neu grwpiau bach, mae'r dysgwyr yn trafod rolau swyddi penodol – pwy sy'n gwneud beth, pa sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw a phwysigrwydd y rôl i'r sector ac yn cynhyrchu taflenni gwybodaeth
- mae'r dysgwr yn cymryd rhan mewn chwarae rôl yn mynd am gyfweliadau ar gyfer rolau swyddi amrywiol.

## Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- rhyngweithio â siaradwyr gwadd o'r sector amgylchedd adeiledig i gael mewnwelediad o lygad y ffynnon i arferion a disgwyliadau'r byd go iawn
- gofyn cwestiynau a thrafod tueddiadau, heriau ac arloesiadau cyfredol yn y sector gyda gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant
- ymweld ag adeiladau, datblygiadau neu safleoedd lleol neu fynychu digwyddiadau i ddeall sector yr amgylchedd adeiledig o lygad y ffynnon
- meithrin ysbrydoliaeth a chymhelliant o glywed teithiau gyrfa personol ac am lwyddiannau.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol.  Mae mwy o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# Uned 2 Sgiliau Llaw Ymarferol

| | |
|---|---|
| **ODA** | 84 |
| **Trosolwg o'r uned** | Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i ddatblygu, cymhwyso ac adolygu amrywiaeth o sgiliau offer llaw ymarferol.<br><br>Pwrpas yr uned hon yw: i ddysgwyr:<br><br>• archwilio a datblygu sgiliau offer llaw ymarferol y gallan nhw eu cymhwyso at dasgau allweddol.<br>• dysgu am wahanol offer a sut i'w defnyddio'n ddiogel ac yn gywir<br>• adfyfyrio ar eu perfformiad i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. |
| **Deilliannau Dysgu** | Drwy gwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:<br><br>2.1 gwybod am iechyd a diogelwch a bod yn ymwybodol ohono<br>2.2 gallu trafod a defnyddio offer yn ddiogel<br>2.3 gallu mesur a marcio deunyddiau'n ddiogel ac yn gywir<br>2.4 gallu torri a siapio deunyddiau'n ddiogel ac yn effeithiol<br>2.5 gallu uno a sefydlogi deunyddiau'n ddiogel ac yn effeithiol<br>2.6 gallu paratoi a gorffennu arwynebau yn ddiogel ac yn effeithiol<br>2.7 gallu adolygu eu sgiliau llaw. |
| **Crynodeb o'r asesu** | Bydd asesu ar gyfer yr uned hon yn cael ei gynnal trwy weithgareddau a osodir gan yr athro/athrawes sy'n galluogi dysgwyr i ddangos yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu mewn ffyrdd ymarferol a hygyrch.<br><br>Er mwyn cyflawni pob deilliant dysgu, rhaid i ddysgwyr ddarparu tystiolaeth sy'n bodloni'r meini prawf asesu. Mae tasgau enghreifftiol wedi'u cynnwys ar ôl yr uned.<br><br>Rhaid i ganolfannau sicrhau nad yw gweithgareddau asesu yn hirach na'r uchafswm hyd o 21 awr. I'r rhan fwyaf o ddysgwyr, bydd yr asesu fel arfer o fewn yr amrediad dangosol o 19–21 awr, er y gellir defnyddio cyfnodau byrrach lle bo hynny'n briodol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr Lefel Mynediad. Ni ddylid trin yr amrediad fel lleiafswm, a rhaid i ganolfannau osgoi gorasesu.<br><br>Rhaid i ganolfannau gofnodi'r amser bras y mae pob dysgwr yn ei dreulio ar weithgareddau asesu at ddibenion cymedroli a sicrhau ansawdd. |
| **Yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr asesiad** | Mae angen y lle, y cyfarpar (megis Cyfarpar Diogelu Personol a restrir yn 2.1.2 a chyfarpar torri a siapio yn 2.4), y deunyddiau (a restrir yn 2.3.1) a'r offer (a restrir 2.2.1) angenrheidiol ar ganolfannau a fydd yn galluogi dysgwyr i ymgymryd â thasgau ymarferol sy'n bodloni'r deilliannau dysgu. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| **Cysylltau ag unedau a chymwysterau eraill CBAC** | Efallai y bydd gan ddysgwyr sy'n cwblhau'r uned hon ddiddordeb hefyd yn y canlynol:<br><br>Sgiliau Bywyd: Cymorth Cyntaf sylfaenol<br>Sgiliau Bywyd: Diogelwch Personol<br>Sgiliau Bywyd: Cynaliadwyedd ar Waith<br>Sgiliau Gwaith: Goresgyn Rhwystrau<br>Sgiliau Gwaith: Cynllunio Datblygiad Personol<br>Sgiliau Gwaith: Defnyddio TG yn y Gweithle<br>Sgiliau Gwaith: Llesiant a Gwaith |

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Cynnwys

| **Deilliant dysgu 2.1**<br><br>**Bydd dysgwyr yn gwybod am iechyd a diogelwch ac yn ymwybodol ohono** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| 2.1.1<br>Peryglon a risgiau | Peryglon a risgiau cyffredin:<br><br>• adlynion, hydoddyddion, cemegion – llosgiadau cemegol, problemau resbiradol, cosi poenus, arllwysiadau damweiniol<br>• llafnau, hoelion, offer miniog – archollion a chlwyfau trywaniad<br>• annibendod, grisiau, lloriau anwastad – cwympo a baglu sy'n achosi toresgyrn neu ysigiadau.<br>• llwch, sylweddau peryglus, gwreichion – anafiadau i'r llygaid, cosi poenus, niwed i'r golwg<br>• gwrthrychau'n disgyn, offer trwm, morthwylion, offer trwm – cleisio, toresgyrn, anafiadau ardrawiad<br>• deunyddiau fflamadwy – risg ffrwydrad a thân<br>• arwynebau poeth – llosgiadau, ffrithiant<br>• tasgau llaw ailadroddus – anafiadau straen ailadroddus (RSI). |
| 2.1.2<br>Cyfarpar diogelu personol (PPE) | Sut i ddiogelu eich hun trwy:<br><br>• wisgo dillad priodol: osgoi llewys llac a fyddai'n gallu cael eu dal mewn offer<br>• gwisgo cyfarpar amddiffyn y llygaid: goglau diogelwch ar gyfer torri neu forthwylio<br>• gwisgo menig: dewis y math cywir (gwrthsefyll cemegion, gwrthsefyll torri, gwrthsefyll gwres)<br>• gwisgo cyfarpar amddiffyn y clyw: os yn gweithio mewn amgylcheddau swnllyd. |
| 2.1.3<br>Diogelwch yr ardal waith | Mae gweithio'n ddiogel yn golygu:<br><br>• bod yn ymwybodol o bobl eraill sy'n gweithio gerllaw<br>• cael golau da<br>• cadw'r gweithle yn lân ac yn glir o annibendod<br>• dal deunyddiau yn sownd cyn eu torri neu siapio. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu 2.2**<br><br>**Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio a thrafod offer yn ddiogel** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| 2.2.1<br>Trafod a defnyddio offer | Trafod a defnyddio gwahanol fathau o offer yn gywir:<br><br>• cynion, clampiau, ffeiliau, morthwylion, planau, rhathellau, llifiau, tyrnsgriwiau, snipwyr, trywelion, cyllell amlbwrpas, feisiau<br>• dewis offer priodol ar gyfer tasg benodol. |
| 2.2.2<br>Defnyddio offer yn ddiogel | Mae defnyddio offer yn ddiogel yn golygu:<br><br>• storio offer yn ddiogel pan nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio<br>• defnyddio offer at y diben a fwriadwyd yn unig<br>• archwilio offer am ddifrod (er enghraifft, craciau, carnau llac) cyn eu defnyddio<br>• defnyddio offer llaw yn ddiogel bob amser a sicrhau:<br>    • defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol priodol<br>    • defnyddio meinciau neu gynalyddion i osgoi ystumiau lletchwith<br>    • cymryd seibiannau i atal blinder a straen ailadroddus<br>    • defnyddio'r swm cywir o rym<br>• defnyddio gafael priodol a chynnal ystum cywir. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu 2.3**<br><br>**Bydd dysgwyr yn gallu mesur a marcio deunyddiau'n ddiogel ac yn gywir** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| 2.3.1<br>Defnydd o ddeunyddiau | Defnyddio gwahanol fathau o ddeunyddiau:<br><br>• priodweddau deunyddiau:<br>  • archwilio gwahanol ddeunyddiau gan gynnwys bricsen, bloc concrit, metel, plastig, llechen, carreg, teilsen, pren<br>• bydd deunyddiau gwahanol yn gofyn am dechnegau marcio gwahanol. |
| 2.3.2<br>Mesur deunyddiau | Mesur effeithiol:<br><br>• defnyddio system fetrig<br>• darllen graddfeydd yn gywir<br>• mesuriadau cywir a diogel:<br>  • mesur pellteroedd gan ddefnyddio tâp mesur neu fesur digidol<br>  • mesur onglau gan ddefnyddio sgwâr/onglydd<br>• mesur lefelau gan ddefnyddio lefel wirod. |
| 2.3.3<br>Marcio deunyddiau | Marcio effeithiol:<br><br>• defnyddio offer marcio yn gywir megis sialc, pensil neu sgrifell yn dibynnu ar y deunydd<br>• marcio deunyddiau yn gywir ac yn ddiogel i'w torri neu eu cydosod trwy:<br>  • sylw i fanylion – amynedd a manwl gywirdeb i sicrhau'r camgymeriadau lleiaf posibl<br>  • ailwirio mesuriadau cyn marcio<br>  • gwirio – mesur ddwywaith, torri unwaith. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

<table>
<tr><th>Deilliant dysgu 2.4<br><br>Bydd dysgwyr yn gallu torri a siapio deunyddiau'n ddiogel ac yn effeithiol</th><th>Cynnwys a addysgir</th></tr>
<tr><td>2.4.1<br>Dewis yr offer llaw cywir ar gyfer y deunydd</td><td>Bricsen:<br><br>• morthwyl brics a bolster ar gyfer torri brics<br>• pwyntiwr brics ar gyfer gorffennu'r bregion<br>• llinyn plwm a lefel wirod i sicrhau cywirdeb<br>• trywel ar gyfer taenu morter<br><br>Bloc concrit:<br><br>• morthwyl brics a bolster ar gyfer torri brics<br>• lefel wirod i sicrhau sythder<br>• trywel ar gyfer taenu morter<br><br>Metel:<br><br>• haclif ar gyfer torri peipiau, rhodenni a llenni metel<br>• ffeiliau metel ar gyfer dadarwhau a siapio ymylon<br>• snipiwr tun ar gyfer torri llenfetel tenau<br><br>Plastig:<br><br>• llif mân-ddanheddog i atal cracio wrth dorri plastigion anhyblyg<br>• ffeiliau plastig ar gyfer llyfnhau ymylon ar ôl torri<br><br>Llechen:<br><br>• cynion ar gyfer siapio llechen<br>• morthwyl llechi ar gyfer taro hoelion a siapio<br>• torrwr llechi arbenigol<br><br>Teils:<br><br>• fflôt growt i wasgu growt i fregion a chael gwared ar ormodedd<br>• torrwr teils â llaw ar gyfer gwneud toriadau syth<br>• trywel bylchog i daenu adlyn yn gyfartal<br>• gordd rwber i dapio teils yn eu lle a sicrhau adlyniad llawn<br>• niperi teils ar gyfer gwneud toriadau bach, afreolaidd neu grwm yn aml o amgylch rhwystrau megis peipiau<br><br>Pren:<br><br>• llif fwa fach ar gyfer perffeithio cromliniau a siapiau cymhleth<br>• cŷn ar gyfer siapio a cherfio<br>• ffeiliau a rhathellau ar gyfer llyfnhau ymylon a mireinio siapiau</td></tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | • llawlif ar gyfer toriadau syth mewn pren meddal neu galed. |
| 2.4.2<br>Rhoi deunydd yn sownd yn effeithiol | Dal yn sownd effeithiol:<br><br>• i sicrhau manwl gywirdeb, atal symudiad a diogelu offer rhag difrod<br>• dulliau cyffredin o ddal deunyddiau'n sownd:<br>    • feis fainc: delfrydol ar gyfer gwaith metel neu dasgau trwm / mae'n darparu gafael a sadrwydd cryf<br>    • clampiau:<br>        • clampiau bar: delfrydol ar gyfer darnau mwy o faint<br>        • clampiau-C / clampiau-G: delfrydol ar gyfer dal pren neu fetel wrth fainc<br>        • clampiau rhyddhau cyflym: cyflym a chyfleus ar gyfer gwaith ysgafn<br>    • dalwyr arbenigol:<br>        • march llifio: ar gyfer cynnal estyll hir<br>        • clampiau peipiau: ar gyfer gwrthrychau silindrog. |
| 2.4.3<br>Defnyddio'r offer a'r technegau torri cywir: | Dewis yr offer a'r technegau torri cywir ar gyfer y deunydd:<br><br>• bricsen: defnyddio morthwyl a chŷn bras, rhicio'r llinell i'w thorri ac yna rhoi'r fricsen ar arwyneb cadarn a tharo'r cŷn i dorri'r fricsen yn lân<br>• bloc concrit: defnyddio morthwyl a chŷn bras, rhicio'r llinell i'w thorri yna rhoi'r bloc ar arwyneb cadarn a tharo'r cŷn i dorri'r bloc yn lân.<br>• metel: defnyddio pwysau cytbwys, cyson – peidio â rhuthro na gorfodi'r llafn, rhoi olew ar y llafn a defnyddio'r llafn cywir<br>• plastig: rhicio a snapio llenni tenau; ar gyfer darnau mwy trwchus, defnyddio llifiau mân-ddanheddog i osgoi cracio<br>• llechen: gan ddefnyddio morthwyl a chŷn, rhicio ac yna naddu cefn y llechen i leihau diffygion ar yr ochr weladwy.<br>• teils: defnyddio torrwr teils â llaw trwy alinio'r deilsen â'r olwyn dorri ac yna defnyddio pwysau cadarn cytbwys ar hyd y llinell sydd wedi'i rhicio. Gellir defnyddio niperi ar gyfer siapiau afreolaidd – dylid marcio amlinelliad y toriadau ar y deilsen/teils yna gellir tynnu darnau bach o'r deilsen i roi'r siâp a ddymunir<br>• pren: torri ar hyd y graen er mwyn cryfder; defnyddio symudiadau arafach ar gyfer pren caled.<br><br>Torri effeithiol a diogel:<br><br>• defnyddio'r ystum a'r gafael cywir<br>• torri'n gywir<br>• gadael i'r offeryn wneud y gwaith |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | |
|---|---|
| | • cadw cyflymder araf a chyson<br>• cadw'r llinell dorri yn weladwy<br>• gorffennu'n ddiogel: cynnal y darn o bren sy'n cael ei dorri i ffwrdd. |
| 2.4.4<br>Siapio defnyddiau | Siapio effeithiol:<br><br>• mae'n cynnwys plygu, ffurfio neu dynnu deunydd i gyflawni siâp neu orffeniad a ddymunir<br>• dulliau:<br>    • naddu: yn cael ei ddefnyddio i siapio pren, brics, blociau concrit a llechi<br>    • torri: yn cael ei ddefnyddio i wahanu neu siapio deunyddiau megis pren, metel, plastig neu garreg gan ddefnyddio offer megis cyllyll, llifiau neu welleifiau<br>    • ffeilio: yn cael ei ddefnyddio ar gyfer llyfnhau ymylon neu fireinio siapiau<br>    • llifanu: ar gyfer siapio metel neu lyfnhau weldiadau<br>    • sandio: ar gyfer pren a rhai plastigion i lyfnhau arwynebau. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu 2.5**<br><br>**Bydd dysgwyr yn gallu uno a sefydlogi deunyddiau yn ddiogel ac yn effeithiol** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| 2.5.1<br>Uno deunyddiau | Uno effeithiol:<br><br>• uno dau neu fwy o ddeunyddiau gan ddefnyddio'r dull cywir i greu un uned<br>• dewis deunyddiau priodol i'w huno<br>• glanhau ac archwilio arwynebau am ddiffygion<br>• alinio deunyddiau'n gywir cyn uno<br>• cymhwyso'r dulliau uno cywir:<br>  ◦ bolltio: defnyddio bolltau, nytiau, wasieri<br>  ◦ hoelio: defnyddio hoelion<br>  ◦ rhybedu: defnyddio morthwyl<br>  ◦ sgriwio: defnyddio plygiau a sgriwiau<br>• archwilio'r uniad am gryfder ac aliniad. |
| 2.5.2<br>Sefydlogi deunyddiau | Sefydlogi effeithiol:<br><br>• clymu deunyddiau'n sownd i arwyneb neu yn eu lle gan ddefnyddio'r dull cywir<br>• glanhau ac archwilio arwynebau am ddiffygion<br>• alinio deunyddiau'n gywir cyn eu sefydlogi<br>• clampio ar gyfer sadrwydd<br>• cymhwyso'r dulliau sefydlogi cywir:<br>  ◦ smentio: defnyddio morter<br>  ◦ sefydlogi: gan ddefnyddio adlynion, bolltau, resin epocsi, gludion, hoelion, sgriwiau neu selwyr<br>  ◦ pinio: defnyddio hoelbrennau<br>  ◦ gwifro: defnyddio gwifren<br>• defnyddio technegau cywir: defnyddio pwysau cyson ac osgoi gor-dynhau<br>• archwilio'r uniad am gryfder ac aliniad<br>• glanhau gormodedd o'r cyfrwng sefydlogi. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

<table>
<tr><th>Deilliant dysgu 2.6<br><br>Bydd dysgwyr yn gallu paratoi a gorffennu arwynebau yn ddiogel ac yn effeithiol</th><th>Cynnwys a addysgir</th></tr>
<tr><td>2.6.1<br>Paratoi arwynebau</td><td>Paratoi effeithiol:
<ul>
<li>asesu'r arwyneb:
<ul>
<li>archwilio'r arwyneb am ddifrod, baw neu hen haenau, lleithder</li>
<li>nodi'r math o ddeunydd er mwyn dewis y dull cywir</li>
</ul></li>
<li>glanhau a pharatoi:
<ul>
<li>cael gwared ar unrhyw lwch, saim neu haenau/gronynnau rhydd</li>
<li>defnyddio offer/hydoddyddion glanhau priodol os oes angen</li>
</ul></li>
<li>llyfnhau neu lefelu:
<ul>
<li>sandio ardaloedd garw neu lenwi tyllau/craciau gyda llenwad</li>
<li>defnyddio paent preimio neu seliwr: ar gyfer arwynebau sydd angen eu diogelu neu adlyniad gwell.</li>
</ul></li>
</ul></td></tr>
<tr><td>2.6.2<br>Gorffennu arwynebau</td><td>Gorffennu effeithiol:
<ul>
<li>dulliau gorffennu:
<ul>
<li>paentio, selio neu farneisio er mwyn ymddangosiad a gwydnwch</li>
</ul></li>
<li>gwiriadau ansawdd:
<ul>
<li>gwirio am orffeniad llyfn, cyson heb linellau neu ddarnau garw</li>
<li>gwirio nad oes halogiad (llwch, malurion) ar yr arwyneb gorffenedig.</li>
</ul></li>
</ul></td></tr>
</table>

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu 2.7**<br><br>**Bydd dysgwyr yn gallu adolygu eu sgiliau llaw** | **Cynnwys a addysgir** |
|---|---|
| 2.7.1<br>Meini prawf llwyddiant | Gosod nodau penodol a realistig ar gyfer pob cam o fewn tasg.<br><br>Gallai hyn gynnwys, er enghraifft:<br><br>• dewis yr offer cywir<br>• archwilio cyflwr offer<br>• cydymffurfio â diogelwch<br>• cywirdeb gwaith<br>• effeithlonrwydd<br>• ystum a gafael cywir<br>• gorffeniad glân<br>• dim digwyddiadau<br>• offer wedi'u glanhau a'u storio'n gywir ar ôl cwblhau'r dasg<br>• gadael y gweithle'n lân ac yn daclus. |
| 2.7.2<br>Hunanadolygu perfformiad mewn tasgau | Cwblhau adolygiad o'r holl dasgau – sy'n ymdrin â'r canlynol:<br><br>• pa mor dda y cafodd y tasgau eu deall<br>• pa mor dda y cafodd y tasgau eu cynllunio<br>• pa mor dda y cafodd y tasgau eu cwblhau'n ddiogel ac yn gywir<br>• ansawdd cyffredinol y tasgau a gwblhawyd<br>• os bodlonwyd meini prawf llwyddiant y dysgwr ei hun<br>• cryfderau<br>• sut i wella sgiliau. |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Meini prawf asesu

Dyrannwyd pwyntiau i bob maen prawf asesu sy'n cynrychioli lefel gweithio'r dysgwr. Dyrennir **1** pwynt i bob maen prawf Mynediad 1, dyrennir **2** bwynt i bob maen prawf Mynediad 2, dyrennir **3** phwynt i bob maen prawf Mynediad 3 a dyrennir **4** pwynt i bob maen prawf Lefel 1.

Dyfernir gradd yr uned yn seiliedig ar gyfanswm nifer y pwyntiau a enillwyd gan y dysgwr fel y nodir yn adran 4.3 Graddio ac adrodd yn ôl.

| **Deilliant dysgu** | **Meini prawf asesu – gall y dysgwr:** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gymorth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda lefel ganolig o gymorth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda'r lefel leiaf bosibl o gymorth: (3 phwynt)** | **Lefel 1 yn annibynnol: (4 pwynt)** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD2.1<br>Bydd dysgwyr yn gwybod am iechyd a diogelwch ac yn ymwybodol ohono | 2.1.1<br>Enwi rhai peryglon a risgiau cyffredin. | 2.1.1<br>Rhoi rhai peryglon a risgiau cyffredin. | 2.1.1<br>Nodi'r peryglon a'r risgiau cyffredin a rhai ffyrdd i'w hosgoi. | 2.1.1<br>Nodi peryglon a risgiau cyffredin gan ddefnyddio enghreifftiau o sut i'w hosgoi. | /4 |
| | 2.1.2<br>Enwi<br>Cyfarpar Diogelu Personol priodol ar gyfer tasg benodol. | 2.1.2<br>Rhoi'r Cyfarpar Diogelu Personol mwyaf priodol ar gyfer tasg benodol a rheswm dros ei ddefnyddio. | 2.1.2<br>Nodi'r Cyfarpar Diogelu Personol priodol ar gyfer gwahanol dasgau gyda rhesymau dros ei ddefnyddio. | 2.1.2<br>Nodi'r Cyfarpar Diogelu Personol priodol ar gyfer gwahanol dasgau i sicrhau bod iechyd a diogelwch effeithiol ar waith. | /4 |
| | 2.1.3<br>Enwi rhai ffyrdd o weithio'n ddiogel mewn ardal benodol. | 2.1.3<br>Rhoi ffyrdd o weithio'n ddiogel mewn ardal benodol. | 2.1.3<br>Nodi sut i weithio'n ddiogel mewn gwahanol ardaloedd a rhoi rhywfaint o resymu. | 2.1.3<br>Nodi sut i weithio'n ddiogel mewn gwahanol ardaloedd gyda rhesymu clir. | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| **Deilliant dysgu** | **Meini prawf asesu – gall y dysgwr:** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gymorth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda lefel ganolig o gymorth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda'r lefel leiaf bosibl o gymorth: (3 phwynt)** | **Lefel 1 yn annibynnol: (4 pwynt)** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD2.2<br>Bydd dysgwyr yn gallu trafod offer yn ddiogel | 2.2.1<br>Defnyddio'r offeryn llaw cywir ar gyfer tasg benodol syml. | 2.2.1<br>Defnyddio rhai offer llaw ar gyfer tasgau syml a mwy cymhleth. | 2.2.1<br>Defnyddio amrywiaeth o offer llaw ar gyfer rhai mathau gwahanol o dasgau. | 2.2.1<br>Defnyddio offer llaw yn briodol ar gyfer amrywiaeth o dasgau gwahanol. | /4 |
| | 2.2.2<br>Defnyddio offeryn llaw yn ddiogel. | 2.2.2<br>Defnyddio rhai offer llaw gwahanol yn ddiogel. | 2.2.2<br>Defnyddio amrywiaeth o offer llaw yn ddiogel. | 2.2.2<br>Defnyddio'r holl offer llaw yn ddiogel. | /4 |
| DD2.3<br>Bydd dysgwyr yn gallu mesur a marcio deunyddiau'n ddiogel ac yn gywir | 2.3.1<br>Defnyddio rhai deunyddiau a thechnegau marcio sylfaenol er efallai na fyddan nhw bob amser yn briodol ar gyfer y deunydd. | 2.3.1<br>Defnyddio rhai deunyddiau a thechnegau marcio sydd fel arfer yn briodol ar gyfer y deunydd. | 2.3.1<br>Defnyddio amrywiaeth o wahanol ddeunyddiau a thechnegau marcio sy'n briodol ar y cyfan ar gyfer y deunydd. | 2.3.1<br>Defnyddio gwahanol ddeunyddiau a thechnegau marcio sy'n briodol ar gyfer y deunydd. | /4 |
| | 2.3.2<br>Mesur rhai deunyddiau'n ddiogel er efallai na fydd bob amser yn gywir. | 2.3.2<br>Mesur rhai deunyddiau yn ddiogel a gyda rhywfaint o gywirdeb. | 2.3.2<br>Mesur gwahanol ddeunyddiau yn ddiogel ac yn gywir ar y cyfan. | 2.3.2<br>Mesur unrhyw ddeunydd yn ddiogel ac yn gywir. | /4 |
| | 2.3.3<br>Marcio rhai deunyddiau yn ddiogel er efallai na fydd bob amser yn gywir. | 2.3.3<br>Marcio rhai deunyddiau yn ddiogel a gyda rhywfaint o gywirdeb. | 2.3.2<br>Marcio gwahanol ddeunyddiau yn ddiogel ac yn gywir ar y cyfan. | 2.3.2<br>Marcio unrhyw ddeunyddiau yn ddiogel ac yn gywir. | /4 |
| *Canllawiau ar lefel sgiliau a chanlyniadau* | *Efallai nad yw'r sgiliau yn sicr ac nid yw'r* | *Rhai sgiliau cadarn yn dod i'r amlwg a rhai canlyniadau llwyddiannus.* | *Lefel o sgiliau sicr yn dod i'r amlwg a chanlyniadau llwyddiannus ar y cyfan – y* | *Tystiolaeth o sgiliau sicr a chanlyniadau llwyddiannus* | - |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | *canlyniadau bob amser yn llwyddiannus.* | | *gallu i roi cynnig ar dasgau mwy cymhleth.* | *– y gallu i gwblhau tasgau mwy cymhleth.* | |

| **Deilliant dysgu** | **Meini prawf asesu – gall y dysgwr:** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gymorth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda lefel ganolig o gymorth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda'r lefel leiaf bosibl o gymorth: (3 phwynt)** | **Lefel 1 yn annibynnol: (4 pwynt)** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD2.4<br>Bydd dysgwyr yn gallu torri a siapio deunyddiau'n ddiogel ac yn effeithiol | 2.4.1<br>Dangos y defnydd o wahanol offer cywir ar gyfer o leiaf un deunydd. | 2.4.<br>Dangos y defnydd o wahanol offer cywir ar gyfer o leiaf dau ddeunydd. | 2.4.1<br>Dangos y defnydd o wahanol offer cywir ar gyfer o leiaf tri deunydd. | 2.4.1<br>Dangos y defnydd o wahanol offer cywir ar gyfer ystod o ddeunyddiau. | /4 |
| | 2.4.2<br>Dal deunyddiau yn sownd yn ddiogel er efallai na fydd bob amser yn effeithiol. | 2.4.2<br>Dal rhai deunyddiau yn sownd yn ddiogel a gyda rhywfaint o effeithiolrwydd. | 2.4.2<br>Dal gwahanol ddeunyddiau yn sownd yn ddiogel ac yn effeithiol ar y cyfan. | 2.4.2<br>Dal unrhyw ddeunydd yn sownd yn ddiogel ac yn effeithiol. | /4 |
| | 2.4.3<br>Defnyddio o leiaf un offeryn torri a thechneg gywir yn ddiogel – efallai na fydd y lefel sgiliau yn sicr.<br><br>*Efallai na fydd y dewis offer a thechnegau bob amser yn briodol.* | 2.4.3<br>Defnyddio rhai offer a thechnegau torri cywir yn ddiogel.<br><br>*Mae'r dewis offer a thechnegau yn briodol ar y cyfan.* | 2.4.3<br>Defnyddio offer a thechnegau torri cywir yn ddiogel ac yn effeithiol ar y cyfan. | 2.4.3<br>Defnyddio offer a thechnegau torri cywir yn ddiogel ac yn effeithiol. | /4 |
| | 2.4.4<br>Dangos siapio rhai deunyddiau yn ddiogel er efallai na fydd bob amser yn effeithiol. | 2.4.4<br>Dangos siapio amrywiaeth o ddeunyddiau yn ddiogel gyda rhywfaint o effeithiolrwydd. | 2.4.4<br>Dangos siapio deunyddiau yn ddiogel ac yn effeithiol ar y cyfan. | 2.4.4<br>Dangos siapio deunyddiau yn ddiogel ac yn effeithiol. | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| *Canllawiau ar lefel sgiliau a chanlyniadau* | *Efallai nad yw'r sgiliau yn sicr ac nid yw'r canlyniadau bob amser yn llwyddiannus.* | *Rhai sgiliau cadarn yn dod i'r amlwg a rhai canlyniadau llwyddiannus.* | *Lefel o sgiliau diogel yn dod i'r amlwg a chanlyniadau llwyddiannus ar y cyfan – y gallu i roi cynnig ar dasgau mwy cymhleth.* | *Tystiolaeth o sgiliau sicr a chanlyniadau llwyddiannus – y gallu i gwblhau tasgau mwy cymhleth.* | - |

| **Deilliant dysgu** | **Meini prawf asesu – gall y dysgwr:** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gymorth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda lefel ganolig o gymorth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda'r lefel leiaf bosibl o gymorth: (3 phwynt)** | **Lefel 1 yn annibynnol: (4 pwynt)** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD2.5<br>Bydd dysgwyr yn gallu uno a sefydlogi deunyddiau yn ddiogel ac yn effeithiol | 2.5.1<br>Uno dau ddeunydd yn ddiogel gan ddefnyddio'r dull cywir – efallai na fydd yr uniad yn gwbl effeithiol. | 2.5.1<br>Uno dau neu fwy o ddeunyddiau yn ddiogel a gyda rhywfaint o effeithiolrwydd gan ddefnyddio'r dull cywir. | 2.5.1 Uno amrywiaeth o wahanol ddeunyddiau yn ddiogel ac yn effeithiol ar y cyfan gan ddefnyddio'r dulliau cywir. | 2.5.1<br>Uno gwahanol ddeunyddiau'n ddiogel ac yn effeithiol gan ddefnyddio'r dulliau cywir. | /4 |
| | 2.5.2<br>Sefydlogi o leiaf un deunydd yn ddiogel gan ddefnyddio'r dull cywir – efallai na fydd y dechneg sefydlogi yn gwbl effeithiol. | 2.5.2<br>Sefydlogi dau neu fwy o ddeunyddiau yn ddiogel gan ddefnyddio'r dull a'r dechneg gywir. | 2.5.2<br>Sefydlogi amrywiaeth o ddeunyddiau yn ddiogel ac yn effeithiol ar y cyfan gan ddefnyddio'r dull a'r dechneg gywir. | 2.5.2<br>Sefydlogi gwahanol ddeunyddiau yn ddiogel ac yn effeithiol gan ddefnyddio'r dull a'r dechneg gywir. | /4 |
| DD2.6<br>Bydd dysgwyr yn gallu paratoi a gorffennu arwynebau yn ddiogel ac yn effeithiol | 2.6.1<br>Paratoi rhai arwynebau yn ddiogel ac yn effeithiol. | 2.6.1<br>Paratoi amrywiaeth o arwynebau yn ddiogel ac yn effeithiol. | 2.6.1<br>Paratoi gwahanol arwynebau yn ddiogel ac yn effeithiol gyda lefel sgìl sy'n dod i'r amlwg. | 2.6.1<br>Paratoi gwahanol arwynebau yn ddiogel ac yn effeithiol gyda lefel gadarn o sgìl. | /4 |
| | 2.6.2<br>Gorffennu rhai arwynebau yn ddiogel ac yn effeithiol. | 2.6.2<br>Gorffennu amrywiaeth o arwynebau yn ddiogel. | 2.6.2<br>Gorffennu gwahanol arwynebau yn ddiogel ac yn effeithiol gan ddefnyddio rhai dulliau gwahanol. | 2.6.2<br>Gorffennu gwahanol arwynebau yn ddiogel ac yn effeithiol gan ddefnyddio dulliau gwahanol. | /4 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| *Canllawiau ar lefel sgiliau a chanlyniadau* | *Efallai nad yw'r sgiliau yn sicr ac nid yw'r canlyniadau bob amser yn llwyddiannus.* | *Rhai sgiliau cadarn yn dod i'r amlwg a rhai canlyniadau llwyddiannus.* | *Lefel o sgiliau sicr yn dod i'r amlwg a chanlyniadau llwyddiannus ar y cyfan – y gallu i roi cynnig ar dasgau mwy cymhleth.* | *Tystiolaeth o sgiliau sicr a chanlyniadau llwyddiannus – y gallu i gwblhau tasgau mwy cymhleth.* | - |

DRAFFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| Deilliant dysgu | Meini prawf asesu – gall y dysgwr: | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad 1 gyda lefel uchel o gymorth: (1 pwynt)** | **Mynediad 2 gyda lefel ganolig o gymorth: (2 bwynt)** | **Mynediad 3 gyda'r lefel leiaf bosibl o gymorth: (3 phwynt)** | **Lefel 1 yn annibynnol: (4 pwynt)** | **Pwyntiau a roddwyd** |
| DD2.7<br>Bydd dysgwyr yn gallu adolygu eu sgiliau llaw | 2.7.1<br>Dangos gosod meini prawf llwyddiant ar gyfer rhai camau o fewn tasg. | 2.7.1<br>Dangos gosod meini prawf llwyddiant realistig ar gyfer y rhan fwyaf o gamau o fewn tasg. | 2.7.1<br>Dangos gosod meini prawf llwyddiant realistig ar gyfer pob cam o fewn tasg gan ddarparu rhywfaint o sail resymegol glir dros ddewisiadau. | 2.7.1<br>Dangos gosod meini prawf llwyddiant realistig ar gyfer pob cam o fewn tasg gan ddarparu sail resymegol dros ddewisiadau. | /4 |
| | 2.7.2<br>Dangos adolygu perfformiad rhai tasgau.<br><br>Efallai na fydd y cyfathrebu bob amser yn effeithiol. | 2.7.2<br>Dangos adolygu perfformiad y rhan fwyaf o dasgau.<br><br>Mae cyfathrebu yn effeithiol ar y cyfan. | 2.7.2<br>Dangos adolygu perfformiad tasgau sy'n glir ar y cyfan. | 2.7.2<br>Dangos adolygu perfformiad yr holl dasgau yn effeithiol a gydag eglurder. | /4 |
| | | | **Cyfanswm nifer y pwyntiau a roddwyd** | | **/72** |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Enghreifftiau o dasgau

### DD2.1

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda chymorth lefel uchel):

- creu dwy set o gardiau llun, un yn dangos peryglon/risgiau cyffredin ac un gydag enw'r perygl/risg, yna mae'r dysgwr yn eu paru
- rhoi senarios tasg chwarae rôl i'r dysgwr gydag opsiynau dewis lluosog ar gyfer pa Gyfarpar Diogelu Personol i'w ddefnyddio. Mae'r dysgwr yn enwi'r un cywir a fydd yn sicrhau bod y dasg wedi'i gwneud yn ddiogel
- rhoi lluniau amrywiol o ardaloedd gwaith i'r dysgwr a rhestr wirio o bethau a fyddai'n gwneud yr ardal waith yn ddiogel – mae'r dysgwr yn enwi'r rhai sy'n briodol ar gyfer pob llun.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 2 (gyda chymorth canolig):

- dangos lluniau o weithleoedd ac mae'r dysgwr yn nodi peryglon a risgiau posibl
- Cyfarpar Diogelu Personol mewn chwarae rôl: mae'r dysgwyr yn actio enghreifftiau o senarios tasgau – maen nhw’n eu hactio gan wneud y dasg heb Gyfarpar Diogelu Personol ac yna'n dewis eitem/eitemau o Gyfarpar Diogelu Personol i'w defnyddio ac yn chwarae'r rôl eto gan ddefnyddio'r Cyfarpar Diogelu Personol – rhaid iddyn nhw ddweud eu rheswm dros ddewis y Cyfarpar Diogelu Personol
- dangos lluniau o wahanol ardaloedd penodol ac mae'r dysgwr yn cynnig ffyrdd o wneud yr ardal yn ddiogel.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiaf posibl o gymorth):

- mae'r dysgwr yn creu cyflwyniad, posteri neu arddangosfa mur am beryglon a risgiau cyffredin / Cyfarpar Diogelu Personol (gellid defnyddio offer megis Canva for Education) a'r ffordd orau o'u hosgoi
- mewn parau neu grwpiau bach – rhoi tasgau gwahanol iddyn nhw ac maen nhw’n creu rhestr wirio o ba Gyfarpar Diogelu Personol y dylid eu defnyddio i wneud y dasg yn ddiogel
- mae'r dysgwyr yn ysgrifennu llawlyfr sy'n rhoi cyngor ar y ffyrdd gorau o weithio'n ddiogel – rhaid iddo gynnwys rhesymau dros y cyngor sydd wedi'i rhoi.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel 1 (i'w wneud yn annibynnol):

- rhoi adroddiad am ddamwain i'r dysgwyr – mewn parau mae dysgwyr yn cyfweld ei gilydd am y ddamwain ac yn argymell sut i osgoi'r ddamwain rhag digwydd eto (gan gynnwys cyfeirio at Gyfarpar Diogelu Personol a ffyrdd diogel o weithio)
- creu canllaw arferion da am beryglon, risgiau a defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol
- ysgrifennu asesiad risg ar gyfer ardaloedd penodol a chynnwys argymhellion ar gyfer gwella.

### DD2.2-2.6

Gallai canolfannau ddewis asesu'r cynnwys hwn mewn sawl ffordd. Gallen nhw osod tasgau gwahanol ar gyfer pob DD neu gallen nhw gael senario trosfwaol sy'n gofyn i ddysgwyr ddangos y sgiliau trwy ymgymryd â thasgau amrywiol, er enghraifft:

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

- mae adeilad yn cael ei adeiladu/adnewyddu ac mae tasgau penodol sydd angen eu gwneud ym mhob ystafell
- maen nhw'n brentis adeiladu a gofynnwyd iddyn nhw helpu gyda thasgau penodol ar broject adeiladu penodol
- maen nhw'n recordio cyfres o fideos hyfforddi i ddangos sgiliau a thechnegau amrywiol i bobl sydd â diddordeb mewn dysgu sgiliau adeiladu newydd.

Gallen nhw hefyd baru deunyddiau megis brics/blociau, metel/plastig, llechi/teils ac yna gosod tasgau gwneud penodol megis:

- creu sampl wal geudod sy'n cyfuno gwaith brics a blociau
- creu trychiad sampl o do gyda chyplau to pren, ffelt ac estyll stribed, wedi'i orffennu â theils llechi
- creu cynhwysydd plannu cymunedol
- creu panel addurnol
- teilsio ystafell ymolchi (ffug) gan ddefnyddio trim ymyl metel.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda chymorth lefel uchel) a dysgwyr Mynediad 2 (gyda chymorth canolig):

- 2.2 mae'r dysgwyr yn paru/dewis offer penodol â'u pwrpas ac yna'n cysylltu rhestr/llun o dasgau penodol â'r offer
- 2.3 mae'r dysgwyr yn enwi/adnabod enghreifftiau o wahanol ddeunyddiau ac yna'n cysylltu rhestr/llun o dechnegau marcio â'r deunyddiau Rhoi tasgau ymarferol penodol gwahanol iddyn nhw sy'n gysylltiedig â mesur a marcio deunyddiau – gellid rhoi cyd-destun iddyn nhw h.y. senario crefft neu roi tasg mesur/marcio gwahanol ddeunyddiau iddyn nhw. Bydden nhw'n gosod meini prawf llwyddiant ar gyfer y tasgau ymarferol
- 2.4 mae'r dysgwyr yn paru/dewis offer â deunyddiau penodol – rhoi cyfres o dasgau iddyn nhw gymhwyso'u dewis h.y. ar stad o dai newydd mae angen ffensys ar bob gardd, pa ddeunyddiau fyddai orau i'w defnyddio a pha offer? Rhoi tasgau ymarferol penodol gwahanol iddyn nhw sy'n gysylltiedig â dal deunyddiau yn sownd, technegau torri a siapio deunyddiau – gellid rhoi cyd-destun h.y. senario crefft neu roi tasg mesur/marcio gwahanol ddeunyddiau iddyn nhw. Bydden nhw'n gosod meini prawf llwyddiant ar gyfer y tasgau ymarferol.
- 2.5 rhoi deunyddiau i'r dysgwyr ddewis sut i'w huno a'u sefydlogi. Gofyn iddyn nhw ddangos gwahanol ddulliau uno a sefydlogi
- 2.6 gellid cysylltu tasgau paratoi a gorffennu arwynebau â'r tasgau yn 2.3–2.5 felly cyn iddyn nhw farcio, mesur, torri, siapio, sefydlogi ac uno maen nhw'n paratoi ac yna'n gorffennu arwynebau.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiaf posibl o gymorth) a dysgwyr Lefel 1 (i'w wneud yn annibynnol):

- 2.2 gallai dysgwyr baratoi cyflwyniad neu ganllaw neu greu fideo ar gyfer pob offeryn a gweithio'n ddiogel
- 2.3 gallai dysgwyr baratoi cyflwyniad neu ganllaw neu fideo ar bob un o'r deunyddiau
- 2.4 gallai dysgwyr baratoi cyflwyniad neu ganllaw neu fideo ar ddewis yr offer cywir ar gyfer y deunyddiau, dal y deunyddiau yn sownd, technegau torri cywir a siapio deunyddiau
- 2.5 gallai dysgwyr baratoi cyflwyniad neu ganllaw neu fideo ar uno a sefydlogi deunyddiau
- 2.6 gallai dysgwyr baratoi cyflwyniad neu ganllaw neu fideo ar baratoi arwynebau a gorffennu arwynebau.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DD2.7

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 1 (gyda chymorth lefel uchel) a dysgwyr Mynediad 2 (gyda chymorth canolig):

- rhestr syml o nodau (gellid cael rhestr wirio i'w marcio)
- creu ymarfer llenwi bylchau am nodau y mae'r dysgwyr yn eu cwblhau
- gofyn cwestiynau ar lafar am yr hyn y mae'r dysgwyr eisiau ei gyflawni a chofnodi hyn
- creu ffurflen syml i'r dysgwyr ei llenwi ar gyfer eu hunanadolygiad
- gofyn cwestiynau ar lafar am sut y gwnaeth y dysgwyr a chofnodi hyn.

Byddai'r gweithgareddau canlynol yn addas i'w defnyddio gyda dysgwyr Lefel Mynediad 3 (gyda'r lleiaf posibl o gymorth) a dysgwyr Lefel 1 (i'w wneud yn annibynnol):

- creu ffurflen i'r dysgwyr ei llenwi sy'n cofnodi eu meini prawf llwyddiant a'u hadolygiad
- mae'r athro/athrawes yn cynnal sesiwn holi ac ateb gyda'r dysgwr am ei feini prawf llwyddiant ac am gwblhau'r tasgau
- mae'r dysgwr yn cofnodi ei adolygiad o bob tasg ar ôl ei chwblhau – gellid defnyddio cwestiynau penodol y maen nhw'n ymateb iddyn nhw ar gyfer strwythur
- mae'r dysgwr yn rhoi cyflwyniad am ei feini prawf llwyddiant/pa mor dda y mae wedi cwblhau'r tasgau.

## Cyfleoedd ar gyfer integreiddio profiadau dysgu sy'n ymwneud â'r byd gwaith

Mae'r uned hon yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau dysgu canlynol (ni fydd profiadau yn cael eu hasesu'n uniongyrchol):

- rhyngweithio â siaradwyr gwadd o'r sector amgylchedd adeiledig i gael mewnwelediad o lygad y ffynnon i arferion a disgwyliadau'r byd go iawn
- gofyn cwestiynau a thrafod tueddiadau, heriau ac arloesiadau cyfredol yn y sector gyda gweithwyr proffesiynol o'r diwydiant
- dysgu am wahanol lwybrau gyrfa, llwybrau hyfforddi, a chymwysterau yn uniongyrchol gan gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant yn y maes amgylchedd adeiledig
- datblygu sgiliau rhwydweithio drwy ymgysylltu â gweithwyr yr amgylchedd adeiledig
- ymweld ag adeiladau, datblygiadau neu safleoedd lleol neu fynychu digwyddiadau i ddeall sector yr amgylchedd adeiledig o lygad y ffynnon
- meithrin ysbrydoliaeth a chymhelliant o glywed teithiau gyrfa personol ac am lwyddiannau.

Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau i integreiddio'r profiadau a'r sgiliau dysgu hyn wrth ei gyflwyno.

Gweler Atodiad A am gyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol. Mae mwy o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 3. Asesu

Mae'r cymhwyster hwn yn cael ei asesu trwy bortffolio o dystiolaeth sy'n cael ei asesu'n fewnol gyda phroses gymedroli allanol yn sicrhau ei ansawdd. Mae gwybodaeth am y broses gymedroli i'w gweld yn y ddogfen *Asesu Mewnol: Canllaw i ganolfannau*, sydd i'w gweld yn adran weinyddu gwefan CBAC.

Dim ond ar ôl cwblhau'r addysgu a'r dysgu perthnasol y dylid cynnal yr asesu. Rhaid i ganolfannau sicrhau nad yw ymgeiswyr yn cael eu hasesu'n barhaus neu'n gynamserol.

## 3.1. Tasgau asesu

Mae gan athrawon yr hyblygrwydd i ddylunio tasgau a gweithgareddau asesu sy'n bodloni orau anghenion eu dysgwyr. Mae'r dull hwn yn galluogi teilwra asesiadau i ddiddordebau, galluoedd a chyd-destun pob grŵp dysgwyr. Mae hefyd yn caniatáu i athrawon fod yn greadigol ac i gynnig amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth.

Rhaid i dasgau asesu alluogi dysgwyr i fodloni'r meini prawf asesu ar gyfer yr uned ar y lefel sy'n briodol i'w perfformiad. Mae pob maen prawf asesu wedi'i strwythuro ar draws pedair lefel, o Fynediad 1 i Lefel 1, a gall cyflawniad dysgwr amrywio ar draws gwahanol dasgau o fewn yr un uned. Mae'r dull hwn yn cydnabod cynnydd ym mhob cam ac yn gwerthfawrogi cyflawniad, datblygu sgiliau, a thwf yr unigolyn.

Er mwyn cefnogi canolfannau i ddylunio asesiadau addas, mae tasgau enghreifftiol wedi'u darparu ar ôl pob uned o fewn y fanyleb hon. Er bod enghreifftiau wedi'u cyflwyno ar gyfer pob deilliant dysgu unigol, gall athrawon ddyfeisio tasgau sy'n rhychwantu deilliannau dysgu lluosog, ar yr amod eu bod yn galluogi dysgwyr i ddangos cyflawni'r holl feini prawf asesu perthnasol ar y lefel sy'n briodol i'w perfformiad.

## 3.2. Hyd yr asesiad

Rhaid i ganolfannau sicrhau nad yw gweithgareddau asesu yn hirach na'r uchafswm hyd a nodir yn y crynodeb o'r uned ar gyfer pob uned. Bwriad hyn yw cefnogi cymharu ar draws canolfannau wrth ganiatáu addasiadau rhesymol yn seiliedig ar anghenion dysgwyr a natur tasgau a ddyfeisiwyd gan ganolfannau.

Ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr, dylai gweithgareddau asesu fel arfer fod o fewn yr amser dangosol ar gyfer pob uned, er y gellir defnyddio cyfnodau byrrach lle bo hynny'n briodol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr Lefel Mynediad. Ni ddylid trin yr amrediad fel lleiafswm, a rhaid i ganolfannau osgoi gorasesu.

Rhaid i ganolfannau gofnodi'r amser bras mae pob dysgwr yn ei dreulio ar weithgareddau asesu ac ar gyfer pob uned. Rhaid cadw'r cofnodion hyn at ddibenion cymedroli a sicrhau ansawdd.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 3.3. Gofynion tystiolaeth

Gall dysgwyr ddangos eu bod wedi bodloni'r meini prawf asesu drwy amrywiaeth o fathau o dystiolaeth, gan gynnwys:

- arsylwad yr athro/athrawes – arsylwi'r dysgwr yn uniongyrchol yn cyflawni tasg neu weithgaredd.
- aseiniadau neu dasgau ysgrifenedig – ymatebion ysgrifenedig strwythuredig i dasgau penodol, sy'n briodol i lefel y dysgwr
- allbynnau creadigol – gwaith celf, modelau, cyfryngau digidol neu gynhyrchion creadigol eraill sy'n dangos sgiliau cymhwysol
- tystiolaeth gwaith grŵp – cyfraniadau at dasgau grŵp, wedi'u cefnogi gan nodiadau arsylwi neu adfyfyrio'r dysgwr
- datganiad y dysgwr – cofnod ysgrifenedig neu wedi'i recordio gan y dysgwr yn adfyfyrio ar yr hyn a wnaeth a'r hyn a ddysgodd.
- asesiad gan gymheiriaid neu hunanasesiad – cyfleoedd strwythuredig i ddysgwyr werthuso eu gwaith eu hunain neu waith eraill (gydag arweiniad)
- tystiolaeth ffotograffig – lluniau sy'n dangos gwaith y dysgwr neu ei gyfranogiad mewn gweithgaredd, gan roi'r cyd-destun
- llyfrau gwaith ymarferol neu lyfrau log – cofnodion o weithgareddau a gwblhawyd dros amser, gan gynnwys adfyfyrio ac adborth
- gwaith project – tasgau estynedig neu ymchwiliadau sy'n dangos cynllunio, gweithredu ac adolygu
- gweithgareddau efelychiadol – tasgau a gyflawnwyd mewn amgylchedd wedi'i reoli sy'n ailadrodd senarios y byd go iawn
- yr athro/athrawes/aseswr yn holi – ymatebion i gwestiynau strwythuredig, naill ai wedi'u hysgrifennu neu ar lafar, i gadarnhau dealltwriaeth
- recordiadau fideo/sain – recordiadau o'r dysgwr yn cyflawni tasg, yn rhoi cyflwyniad, neu'n cymryd rhan mewn trafodaeth
- tystiolaeth tystion – datganiadau gan athrawon, staff cefnogi, neu eraill sydd wedi arsylwi perfformiad y dysgwr.

Dylid casglu tystiolaeth dysgwyr ar gyfer pob uned mewn portffolio ar gyfer asesu mewnol a chymedroli allanol. Mae'r term 'portffolio' yn cyfeirio at gasgliad strwythuredig o dystiolaeth.

Rhaid cynnwys Cofnod Asesu'r Dysgwr wedi'i gwblhau gyda'r portffolio. Bydd hwn ar gael ar dudalen cymwysterau gwefan CBAC (bydd cyswllt yn cael ei ychwanegu pan fydd y dudalen ar gael). Rhaid defnyddio Cofnod Asesu'r Dysgwr i gofnodi:

- y gweithgareddau asesu y mae'r dysgwyr wedi'u cwblhau (yr hyn maen nhw wedi'i wneud)
- lle mae'r dystiolaeth wedi'i lleoli
- sylwadau'r athro/athrawes
- lefel y cymorth a'r arweiniad y mae'r dysgwyr wedi'i derbyn
- cyfanswm yr amser yn fras y mae'r dysgwr wedi'i dreulio ar asesiad
- pa feini prawf asesu y mae'r dysgwr wedi'u bodloni
- y radd a ddyfarnwyd a chyfanswm nifer y meini prawf asesu a gyflawnwyd ar lefel y radd a ddyfarnwyd neu'n uwch na hynny.

Rhaid cyfeirio'r holl dystiolaeth yn glir at y meini prawf asesu perthnasol. Rhaid cyflwyno'r holl dystiolaeth yn ddigidol. Gellir dod o hyd i wybodaeth am y broses gyflwyno yn y ddogfen e-gyflwyno: *IAMIS (System Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol) Uwchlwytho – Canllawiau Pynciol*, sydd i'w gweld o adran weinyddu gwefan CBAC.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 3.4. Cefnogaeth ac arweiniad

Dylai athrawon gefnogi dysgwyr wrth iddyn nhw adeiladu eu portffolio. Dylai cymorth adlewyrchu lefel gweithio'r dysgwr.

- Bydd angen lefel uchel o gymorth ar ddysgwyr Mynediad 1, gan gynnwys cymorth llafar, gweledol ac ymarferol, defnyddio symbolau, neu dechnoleg gynorthwyol. Dylai tasgau a chasglu tystiolaeth fod yn strwythuredig iawn i alluogi cyfranogi a chyflawni ystyrlon trwy ymgysylltiad â chymorth.
- Dylai dysgwyr Mynediad 2 ddangos annibyniaeth gynyddol amlwg ond efallai y bydd angen promptiau, cwestiynu dan arweiniad neu dempledi sgaffald arnyn nhw i gynllunio, trefnu ac adfyfyrio ar eu gwaith.
- Disgwylir i ddysgwyr Mynediad 3 weithio gyda'r lefel leiaf bosibl o gymorth, gan fod angen arweiniad achlysurol yn unig i gadarnhau dealltwriaeth neu adolygu cynnydd.
- Dylai dysgwyr Lefel 1 weithio'n annibynnol ond parhau i dderbyn y cymorth sydd ei angen arnyn nhw i lwyddo. Gall athrawon a thiwtoriaid roi cyngor ar gynllunio a strwythuro eu hatebion, ac ar sut i ddod o hyd i wybodaeth a chyflwyno tystiolaeth, lle bo hynny'n briodol. Gall cymorth hefyd gynnwys egluro cyfarwyddiadau, annog adfyfyrio neu helpu dysgwyr i nodi'r camau nesaf, heb gwblhau'r gwaith ar ran y dysgwr.

Mae'r model graddedig hwn o gymorth yn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu annibyniaeth, hyder a sgiliau wrth iddyn nhw symud ymlaen trwy'r lefelau.

## 3.5. Goruchwylio a dilysu

Rhaid i ddysgwyr gael eu goruchwylio gan athro/athrawes wrth gwblhau gweithgareddau asesu. Gall athrawon egluro gofynion tasgau ond rhaid iddyn nhw beidio â rhoi adborth ar y dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu. Rhaid i ddysgwyr ac athrawon lofnodi datganiadau sy'n cadarnhau dilysrwydd y gwaith a gyflwynwyd.

Cydweithio: Caniateir gwaith grŵp dim ond pan fydd hyn wedi'i nodi. Rhaid bod modd nodi'n glir gyfraniadau unigol a rhaid eu hasesu'n annibynnol i sicrhau tegwch. Rhaid i ddysgwyr ddarparu ymatebion unigol, a rhaid bod modd priodoli tystiolaeth i bob dysgwr. Rhaid i'r taflenni dilysu gael eu llofnodi gan yr athro/athrawes a'r dysgwr.

## 3.6. Marcio (dyfarniadau asesu)

Er mwyn sicrhau cysondeb a dibynadwyedd wrth asesu, rhaid i'r holl farcio gael ei wneud gan athro/athrawes neu aseswr dynodedig gydag arbenigedd pwnc priodol.

Rhaid i athrawon ac aseswyr sicrhau'r canlynol:

- eu bod yn dyfarnu yn erbyn y meini prawf asesu yn unig, nid yn seiliedig ar argraffiadau cyffredinol neu ymdrech y dysgwr
- mae tystiolaeth ysgrifenedig wedi'i hanodi'n glir i ddangos sut mae'n bodloni meini prawf penodol
- mae tystiolaeth perfformiad (er enghraifft, cyflwyniadau neu arddangosiadau ymarferol) yn cael ei dogfennu gan ddefnyddio cofnodion arsylwi sy'n cynnwys sylwadau disgrifiadol a chrynodol, gan nodi'n glir pa feini prawf sydd wedi'u bodloni ac ar ba lefel
- mae'r holl dystiolaeth yn ddilys, wedi'i hanodi'n glir, ac wedi'i chofnodi'n gywir, gyda digon o fanylion i gefnogi penderfyniadau asesu
- os defnyddir cofnodion arsylwi, rhaid iddyn nhw gynnwys digon o fanylion i gyfiawnhau'r radd a ddyfarnwyd.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Cefnogir pob deilliant dysgu gan bedwar band perfformiad gwahanol o feini prawf asesu, wedi'u cynllunio i adlewyrchu sbectrwm eang o alluoedd dysgwr. Cydnabyddir y gall perfformiad dysgwr amrywio ar draws deilliannau dysgu gwahanol o fewn yr un uned.

Mae'n rhaid i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ymgeiswyr gyd-fynd â'r disgwyliadau sydd wedi'u nodi yn y meini prawf asesu.

Pan fydd perfformiad yn cael ei arsylwi gan rywun heblaw am yr athro/athrawes, rhaid cwblhau datganiad tyst. Mae'r athro/athrawes yn gyfrifol am ddilysu'r datganiad drwy graffu ar dystiolaeth ategol a/neu holi'r dysgwr neu'r tyst. Gall datganiadau tyst wedi'u dilysu gyfrannu at y dystiolaeth asesu gyffredinol, a rhaid cynnwys dogfennaeth ddilysu.

Darperir pro forma safonedig ar gyfer cofnodion arsylwi a thystion yn y pecyn asesu i ymgeiswyr. Dylid rhoi copi o'r pro forma i ddysgwyr ymlaen llaw i gefnogi tryloywder a chysondeb.

## 3.7. Ailgyflwyno tystiolaeth cyn cymedroli

Gall athrawon ganiatáu un cyfle i ddysgwr wella ei dystiolaeth a'i hailgyflwyno i'w hailasesu cyn cyflwyno'r penderfyniad terfynol i'w gymedroli. Ailgyflwyno yw'r enw ar y broses hon.

Gall ymgeiswyr ailgyflwyno er mwyn:

- mynd i'r afael â hepgoriadau neu dystiolaeth anghyflawn ar gyfer y lefel bresennol
- ceisio cyflawni meini prawf asesu ychwanegol neu lefel uwch (er enghraifft, symud ymlaen o Fynediad 2 i Fynediad 3 neu Lefel 1).

Rhaid trefnu'r asesiad mewnol i ganiatáu digon o amser ar gyfer ailgyflwyno, lle bo angen, cyn y cymedroli allanol.

Rhaid i unrhyw adborth a roddir i ymgeiswyr:

- fod yn ffeithiol, ac yn seiliedig ar yr hyn a welwyd yn eu gwaith.
- nodi pa feini prawf asesu nad ydyn nhw wedi'u bodloni a/neu gadarnhau'r lefel a gyflawnwyd ar hyn o bryd
- osgoi rhoi cyfarwyddiadau penodol ar sut i fodloni meini prawf lefel uwch
- gael ei ddogfennu a'i ddarparu i'w gymedroli'n allanol os gofynnir am hynny.

Rhaid i athrawon beidio â:

- chaniatáu sawl ailgyflwyniad ar sail mân newidiadau yn dilyn adborth
- caniatáu i ddysgwyr ychwanegu, newid, neu ddileu unrhyw waith ar ôl i'r ailgyflwyniad gael ei asesu.

Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu set hollol newydd o dystiolaeth. Dylent ganolbwyntio'n unig ar y meysydd lle mae eu nod yw gwella neu symud ymlaen.

Ni ddylai'r amser sydd ar gael ar gyfer ailgyflwyno fod yn fwy na chyfanswm yr amser sydd wedi'i roi ar gyfer cynhyrchu tystiolaeth gychwynnol.

Dylai canolfannau gadw cofnodion mewnol o ailgyflwyniadau i ddarparu llwybr archwilio clir, gan gynnwys lefel wreiddiol y dysgwr ac unrhyw ailgyflwyniad. Dim ond y dystiolaeth a'r penderfyniadau asesu terfynol sydd angen eu cyflwyno ar gyfer cymedroli allanol.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

Ar ôl cyflwyno'r penderfyniadau asesu i'w cymedroli, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r dystiolaeth. Un cyfle sydd ar gael i ymgeiswyr i ailsefyll asesiad yng nghyfresi asesu'r dyfodol (gweler adran 4.5).

## 3.8. Camymddwyn

Cyn dechrau'r cwrs, cyfrifoldeb athrawon yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer eu Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith.

Ceir gwybodaeth am gamymddwyn yn ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am bob achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

# 4. Gwybodaeth dechnegol

## 4.1. Cofrestru ar gyfer unedau

Cymhwyster unedol yw hwn. Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer pob uned ar wahân.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod y cyfnod asesu bob blwyddyn, fel y nodir isod, tan ddiwedd oes y cymhwyster.

Bydd cymedroli allanol o Uned 1 ar gael am y tro cyntaf yn haf 2028 ac ym mhob cyfres haf wedi hynny.

Bydd cymedroli allanol o Uned 2 ar gael am y tro cyntaf yn haf 2029 ac ym mhob cyfres haf wedi hynny.

Rhaid cofrestru am unedau unigol drwy gyflwyno'r uned berthnasol sydd i'w gweld isod.

| Uned | | Codau Cofrestru | |
|---|---|---|---|
| | | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg |
| Uned 1 | Dod i Adnabod yr Amgylchedd Adeiledig | i'w gadarnhau | i'w gadarnhau |
| Uned 2 | Sgiliau Dwylo Ymarferol | i'w gadarnhau | i'w gadarnhau |

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol ar gyfer yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais.

## 4.2. Cofrestru ar gyfer y cymhwyster

Bydd y cymhwyster yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2029.

Caiff ymgeiswyr eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy'r broses agregu (cyfnewid).

Nid yw'r broses agregu'n digwydd yn awtomatig; rhaid nodi'r cod perthnasol er mwyn agregu.

| | Cyfrwng Saesneg | Cyfrwng Cymraeg |
|---|---|---|
| Cod cyfnewid | i'w gadarnhau | i'w gadarnhau |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## 4.3. Graddio ac adrodd yn ôl

Bydd Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn cael eu dyfarnu ar raddfa bedwar pwynt.

Bydd Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn cael eu dyfarnu ar raddfa bedwar pwynt Mynediad 1 i Lefel 1, a Lefel 1 yw'r radd uchaf.

### Graddau unedau

Dyfernir gradd grynodol i ymgeiswyr ar gyfer pob uned yn seiliedig ar gyfanswm y pwyntiau y mae'r dysgwr wedi'i ennill yn yr uned honno.

Dyrennir **1** pwynt i bob maen prawf Mynediad 1, dyrennir **2** bwynt i bob maen prawf Mynediad 2, dyrennir **3** phwynt i bob maen prawf Mynediad 3 a dyrennir **4** pwynt i bob maen prawf Lefel 1.

Er mwyn cyflawni Mynediad 1, rhaid i'r ymgeisydd ennill 20% o'r pwyntiau sydd ar gael ar gyfer yr uned.

Er mwyn cyflawni Mynediad 2, rhaid i'r ymgeisydd ennill 40% o'r pwyntiau sydd ar gael ar gyfer yr uned.

Er mwyn cyflawni Mynediad 3, rhaid i'r ymgeisydd ennill 60% o'r pwyntiau sydd ar gael ar gyfer yr uned.

Er mwyn cyflawni Lefel 1, rhaid i'r ymgeisydd ennill 80% o'r pwyntiau sydd ar gael ar gyfer yr uned.

Mae'r tabl isod yn dangos isafswm nifer y pwyntiau ar gyfer pob gradd uned y mae'n rhaid i ymgeisydd ei ennill i gael y radd uned honno wedi'i dyfarnu iddyn nhw.

| | Uchafswm pwyntiau | M1 | M2 | M3 | L1 |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 60 | 12 | 24 | 36 | 48 |
| Uned 2 | 72 | 14 | 29 | 43 | 58 |

Os nad yw ymgeiswyr yn ennill isafswm nifer y pwyntiau i ddyfarnu Mynediad 1 iddyn nhw, cofnodir eu cyrhaeddiad fel annosbarthedig (U).

### Gradd y cymhwyster

Bydd gradd y cymhwyster yn seiliedig ar gyfanswm y pwyntiau y mae'r ymgeisydd yn ei ennill ar draws y ddwy uned.

Er mwyn cyflawni Mynediad 1, rhaid i'r ymgeisydd ennill 20% o gyfanswm y pwyntiau sydd ar gael.

Er mwyn cyflawni Mynediad 2, rhaid i'r ymgeisydd ennill 40% o gyfanswm y pwyntiau sydd ar gael.

Er mwyn cyflawni Mynediad 3, rhaid i'r ymgeisydd ennill 60% o gyfanswm y pwyntiau sydd ar gael.

© WJEC CBAC Ltd 2026.

DRAFT

Er mwyn cyflawni Lefel 1, rhaid i'r ymgeisydd ennill 80% o gyfanswm y pwyntiau sydd ar gael.

Mae'r tabl isod yn dangos isafswm nifer y pwyntiau ar gyfer pob gradd uned y mae'n rhaid i ymgeisydd ei ennill i gael dyfarnu'r radd uned honno iddyn nhw.

| | Uchafswm pwyntiau | M1 | M2 | M3 | L1 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymhwyster | 132 | 26 | 53 | 79 | 106 |

Os nad yw ymgeiswyr yn ennill y nifer gofynnol o bwyntiau i gyflawni Llwyddiant Mynediad 1 yna cofnodir eu cyrhaeddiad fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

## 4.4. Ailsefyll asesiadau ar ôl cymedroli allanol

Gall ymgeiswyr ailsefyll pob uned unwaith (dau gynnig i gyd). Defnyddir y radd uchaf a enillwyd ar draws y ddau gynnig wrth bennu'r canlyniad terfynol ar gyfer y cymhwyster.

Pan fyddan nhw'n ailsefyll:

- gall ymgeiswyr ailgyflwyno gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol. Rhaid i ymgeiswyr ac athrawon sicrhau bod modd adnabod tystiolaeth newydd a/neu ddiwygiedig yn glir
- os bydd ymgeisydd wedi'i gofrestru ar gyfer asesiad ond ei fod yn absennol, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais
- os cyflwynodd ymgeisydd dystiolaeth ond nad oedd yn bodloni unrhyw feini prawf asesu, bydd hyn yn cyfrif fel ymgais
- pan fydd y cymhwyster yn cynnwys mwy nag un uned, bydd tystiolaeth a phenderfyniadau o unedau eraill yn cael eu dwyn ymlaen, ar yr amod nad yw nifer cynigion y dysgwr yn fwy nag uchafswm nifer y cynigion a ganiateir ar gyfer unrhyw uned
- os bydd ymgeisydd yn mynd dros nifer y cynigion a ganiateir ar gyfer unrhyw uned, yna bydd gofyn iddyn nhw ailwneud y cymhwyster yn ei gyfanrwydd.

## 4.5. Ailwneud y cymhwyster

Os bydd ymgeisydd yn cofrestru ar gyfer uned am y trydydd tro, rhaid iddyn nhw ailgofrestru, ac ailwneud, pob uned.

Rhaid i'r ymgeisydd gynhyrchu portffolio newydd o dystiolaeth. Ni all ymgeiswyr wella gwaith a gyflwynwyd yn flaenorol; rhaid i'r holl dystiolaeth gael ei chynhyrchu o'r newydd ar gyfer yr ailsefyll. Os gwnaeth canolfannau gynhyrchu cyd-destun ar gyfer asesiad, dylid defnyddio cyd-destun newydd.

Pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster, gall roi hyd at ddau gynnig ar bob uned. Ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn ailsefyll wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

## Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

Mae'r tabl isod yn dangos ble mae'r cymhwyster yn cynnig cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gwybodaeth fanylach wedi'i chynnwys yn y Canllawiau Addysgu: Canllawiau Cyflwyno'r Unedau.

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 |
|---|---|---|
| Themâu trawsbynciol | | |
| Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.1.4. 1.3.1, 1.3.2, 1.3.3, 1.4.1, 1.4.2 | 2.1.1, 2.1.3, 2.3.1 |
| Cynaliadwyedd | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.1.4, 1.2.1, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.3 | 2.3.1 |
| Addysg cydberthynas a rhywioldeb | 1.3.2, 1.4.1, 1.4.2 | |
| Addysg hawliau dynol | 1.3.3 | 2.3.1 |
| Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.3.3, 1.4.1, 1.4.2 | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.2.1, 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3, 2.4.1, 2.4.2, 2.4.3, 2.4.4, 2.5.1, 2.5.2, 2.6.1, 2.6.2, 2.7.1 |
| Sgiliau trawsgwricwlaidd – Llythrennedd | | |
| Gwrando | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.1.4. 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2, 1.3.3, 1.4.1, 1.4.2 | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.2.1, 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3. 2.4.1, 2.4.2, 2.4.3, 2.4.4, 2.5.1, 2.5.2, 2.6.1, 2.6.2, 2.7.1, 2.7.2 |
| Darllen | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.1.4, 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2, 1.3.3, 1.4.1, 1.4.2 | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.2.1, 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3, 2.4.1, 2.4.2, 2.4.3, 2.4.4, 2.5.1, 2.5.2, 2.6.1, 2.6.2, 2.7.1, 2.7.2 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 |
|---|---|---|
| Siarad | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.4, 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2, 1.3.3, 1.4.1, 1.4.2 | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.2.1, 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3, 2.4.1, 2.4.2, 2.4.3, 2.4.4, 2.5.1, 2.5.2, 2.6.1, 2.6.2, 2.7.1, 2.7.2 |
| Ysgrifennu | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.1.4, 1.2.1, 1.2.2, 1.3.1, 1.3.2, 1.3.3, 1.4.1, 1.4.2 | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.2.1, 2.2.2, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3, 2.4.1, 2.4.2, 2.4.3, 2.4.4, 2.5.1, 2.5.2, 2.6.1, 2.6.2, 2.7.1, 2.7.2 |
| Sgiliau trawsgwricwlaidd - Rhifedd | | |
| Datblygu hyfedredd mathemategol | | 2.3.2, 2.3.3 |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | 1.2.2, 1.2.3, 1.3.3 | |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siapiau, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu ni i feintioli yn y byd go iawn | | 2.3.2, 2.4.2, 2.4.4 |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i wneud casgliadau a phenderfyniadau ar sail gwybodaeth | | |
| Cymhwysedd digidol | | |

© WJEC CBAC Ltd 2026.

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 |
|---|---|---|
| Dinasyddiaeth | | |
| Rhyngweithio a chydweithio | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.1.4, 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2, 1.3.3, 1.4.1, 1.4.2 | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.2.1, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3, 2.4.1, 2.4.2, 2.4.3, 2.4.4, 2.5.1, 2.5.2, 2.6.1, 2.6.2 |
| Cynhyrchu | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.1.4, 1.2.1, 1.2.2, 1.2.3, 1.3.1, 1.3.2,1.3.3, 1.4.1, 1.4.2 | 2.1.1, 2.1.2, 2.1.3, 2.2.1, 2.3.1, 2.3.2, 2.3.3, 2.4.1, 2.4.2, 2.4.3, 2.4.4, 2.5.1, 2.5.2, 2.6.1, 2.6.2 |
| Data a meddwl cyfrifiannol | 1.3.1 | |
| Sgiliau cyfannol | | |
| Creadigrwydd ac arloesedd | 1.1.2, 1.1.3, 1.1.4, 1.2.3, 1.3.3 | 2.4.4, 2.5.1, |
| Meddwl yn feirniadol a datrys problemau | 1.1.1, 1.1.2, 1.1.3, 1.1.4, 1.2.3, 1.3.3 | 2.1.1, 2.1.2, 2.4.1, 2.4.4, 2.5.1, 2.5.2, 2.7.1 |
| Cynllunio a threfnu | | 2.7.1 |
| Effeithiolrwydd personol | | 2.3.2, 2.3.3, 2.5.2, 2.6.1, 2.6.2, 2.7.1, 2.7.2 |

DRAFT

© WJEC CBAC Ltd 2026.

FOR CENTRES IN WALES:
www.wjec.co.uk
Facebook - WJEC_CBAC
Twitter - @WJEC_CBAC
Instagram - @WJECforstudents

Email: info@wjec.co.uk
Telephone: 029 2026 5000